


# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24

# *RHAGAIR*



Fel Cadeirydd newydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024. Hoffwn estyn fy niolch aruthrol ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Judith Hardisty, a lywiodd y Bwrdd yn fedrus fel Cadeirydd o fis Hydref 2020. Gwnaeth ei gwaith caled, ei hymroddiad a'i dirnadaeth helpu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i gymryd camau mawr ymlaen yn ein gwaith ac roedd ei chyfraniad yn arwyddocaol wrth lunio effaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru a'n perthynas ar y cyd â Gweinidogion y Senedd a staff Llywodraeth Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n gyfle i ddiolch i'r holl staff, gwirfoddolwyr, darparwyr a gofalwyr di-dâl a'u cydnabod am eu hymdrechion enfawr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth holl aelodau'r Bwrdd a'u hymrwymiad parhaus i helpu i wasanaethu dinasyddion Gorllewin Cymru, ynghyd â'r holl bartneriaid sy'n parhau i gydweithio i ddod o hyd i undod ar draws gwasanaethau, cyfuno adnoddau ac ymdrechu i rannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion cadarnhaol i drawsnewid gwasanaethau.

Fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rydym yn parhau i groesawu egwyddorion 'Cymru Iachach' i helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ataliol, integredig yng Ngorllewin Cymru. Rydym wedi ymrwymo i helpu i gyflawni'r canlyniadau iechyd a llesiant gorau i bobl Gorllewin Cymru a rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn ymdrechu i weithio'n agos gyda'r rheiny sydd â phrofiad bywyd a gwrando arnynt, i'n helpu i ddysgu a deall beth sy'n wirioneddol bwysig a galluogi pobl a'u teuluoedd i lunio'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir. Dyma ffordd o weithio yr ydym wedi ymrwymo i'w datblygu ymhellach, ac rwyf yn falch o gynnwys safbwyntiau gan ein Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion sydd newydd gael ei ffurfio, y trydydd sector a darparwyr sy'n bartneriaid i ni yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Wrth i ni wneud ein ffordd drwy'r gwasgfaeon presennol a chynllunio ar gyfer heriau iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol, bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i greu cyfleoedd i gydweithio ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a chwarae rhan ganolog wrth lunio a gwella cefnogaeth a gwasanaethau'r dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Bartneriaeth i'w chael ar ein gwefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau i oedolion a phlant sydd ag anghenion am ofal a chymorth. (wwrpb.org.uk/cy/) neu drwy gysylltu â Thîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; mae'r manylion cyswllt i'w cael ar ddiwedd yr adroddiad.

***Hazel Lloyd Lubran – Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru***

# CYNNWYS


RHAGAIR ..... 1

Part 1: TROSOLWG O FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU ..... 3

Diben ..... 3

Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ..... 4

Aelodaeth, strwythur gweithredu a llywodraethu ..... 4

Ariannu – Y Cynllun Ardal a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ..... 6

Dadansoddiad o gostau refeniw ..... 7

Arloesi mewn Gwerth Cymdeithasol ..... 7

Cyfathrebu ..... 8

Dathlu llwyddiant ..... 9

Rhan 2: Y RHAGLENNI ..... 10

**Atal a Chydlynu Cymunedol** ..... 10

**Gofal Cymhleth yn nes at y Cartref** ..... 16

**Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol Da** ..... 20

**Cefnogi Teuluoedd a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal** ..... 25

**Gartref o'r ysbyty** ..... 30

**Datrysiadau Seiliedig ar Lety** ..... 34

**Gwasanaeth Asesu Dementia a Chof** ..... 38

**Gofalwyr Di-dâl** ..... 42

**Anableddau Dysgu a Chyflyrau Niwroddatblygiadol** ..... 48

**Cynllunio a Chomisiynu Integredig** ..... 50

**Rhaglen Gyfalaf Gorllewin Cymru** ..... 51

**Arloesi, Technoleg a Datrysiadau Digidol** ..... 53

**Datblygu ac Integreiddio'r Gweithlu** ..... 56

RHAN 3: DOGFENNAU CYFEIRIO A DOLENNI ..... 58

Atodiad 1 ..... 59


# Part 1: TROSOLWG O FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

## Diben

Mae rhanbarth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn cwmpasu ôl troed daearyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â'r trydydd sector a'r sector annibynnol, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Ymhellach, mae partneriaid ehangach sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol megis Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn ymgeisio at y nod cyfunol o drawsnewid a galluogi ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig yng Ngorllewin Cymru trwy gydweithio.

Ymrwymiad cyffredinol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru o hyd yw bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yng Ngorllewin Cymru yn cael yr help iawn, mewn ffordd gydgysylltiedig a di-dor, fel eu bod yn aros yn iach ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd ac yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dyhead yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sef 'Cymru Iachach', ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac atal salwch.'

Ffigur 1. Mae'r isod yn helpu i ddangos sut, drwy weithio'n rhanbarthol, yn lleol ac ar lefel clwstwr, y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn helpu i ddylanwadu ar integreiddio gwasanaethau cymunedol.  Mewn achosion lle mae arloesi a chydlynu lleol wedi gweithio'n dda, gall hyn ddarparu cyfleoedd i fodelau rhanbarthol llwyddiannus gael eu datblygu'n fodelau cenedlaethol, y gellir wedyn eu cymhwyso ledled Cymru.




*Ffigur 1. Mireinio Cwmpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol*

## Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarwyddo gwaith y bartneriaeth i gyflawni'r dyletswyddau statudol a gyflwynwyd yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cynnwys:

- Hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau allweddol megis y rheiny ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a threfniadau cronfeydd cyfun lle bo'n briodol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol craidd megis darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gwasanaethau eiriolaeth
- Gwella canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr
- Sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu defnyddio yn unol â'r canllawiau ac yn cyflawni ein gweledigaeth o iechyd a gofal integredig yng Ngorllewin Cymru

## Aelodaeth, strwythur gweithredu a llywodraethu


Cafodd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei adolygu a'i gymeradwyo ym mis Ebrill 2023 a chafodd cynrychiolwyr newydd o blith defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r trydydd sector eu gwahodd i fod yn bresennol. Ymhellach, yn ystod 2023 paratowyd Llawlyfr Ymgysylltu â Dinasyddion, i helpu i sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o rôl cynrychiolwyr sy'n mynd i gyfarfodydd.

Gellir gweld rhestr lawn o'r aelodau yn y Cylch Gorchwyl a adolygwyd fel y nodir yn Atodiad 1. Yn gyffredinol mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn; fodd bynnag, yn ystod 2023-2024, cafwyd chwe chyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 17 Ebrill 2023
- 15 Mai 2023
- 17 Gorffennaf 2023
- 23 Hydref 2023
- 22 Ionawr 2024
- 11 Mawrth 2024

Mae agendâu y cyfarfodydd hyn ar gael i'r cyhoedd a gellir eu gweld ar wefan y Bartneriaeth, trwy'r ddolen ganlynol: WWRPB Agendas – West Wales Regional Partnership Board

Gellir gweld strwythur gweithredu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ffigur 2 isod, sy'n nodi'r gwahanol raglenni gwaith sy'n adrodd wrth y Bwrdd ac sy'n helpu i ddangos sut y mae'r gwahanol ffrydiau gwaith yn cydberthyn er mwyn cyflawni elfennau'r cynllun ardal 2023-2028. Mae dolen i'r cynllun i'w chael yma:
https://wwrpb.org.uk/cy/cynllun-ardal/




*Ffigur 2 Strwythur gweithredu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ffrydiau gwaith ategol*

## Grŵp Gweithredol Integredig (IEG)

Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig yn cynnwys uwch swyddogion o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y tri Chyngor Sir a Phrif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion sy'n cynrychioli'r trydydd sector. Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynghori'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer integreiddio, yn monitro cynnydd y rhaglen ranbarthol, y defnydd o gyllid rhanbarthol ac yn mynd i'r afael â'r heriau gweithredol cyffredin.

## Grwpiau Cyflawni Rhanddeiliaid

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer grwpiau o'r boblogaeth â blaenoriaeth gan gynnwys pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor (gan gynnwys dementia), pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr. Fel y cyfryw, crëwyd Grwpiau Rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar anghenion penodol grwpiau poblogaeth a nodwyd ac i helpu i lywio gwaith y grwpiau hyn.

## Byrddau Rhaglen Integredig

Mae Byrddau Rhaglen Integredig yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau thematig megis Trawsnewid Gofal Brys ac Argyfwng (UEC) ac mewn rhai achosion, maent yn cynnwys goruchwylio darpariaeth y Modelau Gofal Rhanbarthol.

## Rhaglenni Strategol


Mae Rhaglenni Strategol yn alluogwyr sy'n effeithio ar bob un o'n meysydd thematig o waith a grwpiau poblogaeth.

## Ariannu – Y Cynllun Ardal a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

2023-2024 oedd ail flwyddyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF), sef rhaglen ariannu 5 mlynedd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o sefydlu a phrif ffrydio chwe model gofal cenedlaethol newydd fel y gall dinasyddion Cymru, ble bynnag y maent yn byw, fod yn sicr o gael profiad gwasanaeth effeithiol a di-dor mewn perthynas â;

1) Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol
2) Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref
3) Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da
4) Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal
5) Gwasanaethau ar ôl dod adre o'r ysbyty
6) Datrysiadau seiliedig ar lety


Yng Ngorllewin Cymru rydym wedi trefnu ein rhaglenni gwaith i'n cynorthwyo i ddarparu'r Modelau Gofal hyn ac mae ffigur 3 isod yn helpu i ddangos sut y mae'r meysydd gwaith yn cysylltu â'i gilydd.




*Ffigur 3. Modelau Gofal a darpariaeth ranbarthol*

Yn ystod 2023-24 mae nifer o brosiectau wedi cael eu cefnogi drwy'r cyllid hwn, gyda phob un yn cyfrannu at y gwahanol raglenni gwaith fel y manylir yn ffigur 3 uchod.

## Dadansoddiad o gostau refeniw




*Ffig. 4 Dadansoddiad o gostau refeniw*

## Arloesi mewn Gwerth Cymdeithasol

Sefydlwyd y Fforwm Arloesi Rhanbarthol yn 2023 ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o adnabod arloesedd yn y sector gwerth cymdeithasol, i nodi modelau gofal trawsnewidiol ar draws y trydydd sector a hefyd i gefnogi'r agenda ail-gydbwyso. Dros y flwyddyn cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu i gyd-gynhyrchu ei raglen waith sydd bellach wedi'i chwblhau ac sy'n canolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth: Comisiynu a datblygu mentrau cymdeithasol yn arloesol. Mae'r fforwm yn adrodd drwy'r Bwrdd Atal Rhanbarthol fel rhan o drefniadau llywodraethu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Cytunwyd hefyd ar fodel gweithredu i sicrhau bod y trydydd sector yn cael ei gynnwys go iawn a bydd y fforwm yn rhoi adroddiadau ar ei gynnydd i'r Bwrdd Atal, gan sicrhau bod gan y trydydd sector lais yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

# Cyfathrebu

**Gwrando ar eraill**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn annog Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i weithredu arferion gwaith sy'n ymgorffori llesiant a chynhyrchu ar y cyd, gan roi llais, dewis a rheolaeth i ddinasyddion dros eu hanghenion cymorth.

**Llawlyfr Dinasyddion / Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth:**



Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw gwrando ar lais profiadau o fywyd go iawn a'r manteision a all ddod o hyn, a thros y flwyddyn mae cryn gynnydd wedi'i wneud. Gyda chymorth ac arweiniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth, mae Llawlyfr Dinasyddion/Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth wedi'i ddatblygu i helpu i rannu profiadau a gwybodaeth fel bod modd gwella gwasanaethau.



Mae hwn bellach ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyfrannu iddynt ac mae'n egluro rôl y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, y gefnogaeth sydd ar gael, ac yn egluro unrhyw ddisgwyliadau. Mae'r llawlyfr hwn hefyd yn cyfeirio at grwpiau eraill lle mae llais profiadau bywyd yn rhywbeth sydd i'w groesawu, gan gynnwys y Grŵp Llywio Dementia, y Grŵp Datblygu Gofalwyr, y Bwrdd Atal, y Bwrdd Digidol, Eiriolaeth a'r Bartneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol.

**Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector:**

Mae'r gwaith o ddatblygu Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector wedi symud yn ei flaen yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o ddod ynghyd â lleisiau o brofiadau bywyd, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol. Bydd y dull cydgynhyrchiol hwn yn fforwm gwerthfawr i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu mentrau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru, ac mae disgwyl iddo ddechrau ym mis Mai 2024 gyda chyfarfodydd hybrid misol am y 6 mis cyntaf a chyfarfodydd deufisol wedi hynny. Bydd y Bwrdd yn agored i recriwtio drwy gydol y flwyddyn a bydd yn galluogi cynrychiolwyr dinasyddion a'r trydydd sector i fynd i gyfarfodydd eraill y bwrdd, gan ehangu ystod arbenigedd a phrofiad y rhai yr ydym yn ymgysylltu â hwy.

**Gwefan:**

Mae gwefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru hefyd wedi'i diweddaru yn ystod 2023, er mwyn iddi fod yn blatfform mwy hygyrch i rannu gwybodaeth am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r amrywiol ffrydiau gwaith sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae dolen i'r wefan i'w chael yma: https://wwrpb.org.uk/cy

**Llythyr Newyddion:**

Mae cylchlythyr cyntaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gyhoeddwyd yn 2024 wedi cael derbyniad ffafriol ac wedi arwain at ymrwymiad parhaus i baratoi ac i gyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd yn ystod 2024-25, gan roi'r newyddion diweddaraf am feysydd gwaith allweddol.

## Dathlu llwyddiant



Ar 14 Mawrth 2024 cynhaliodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddigwyddiad Cynhadledd a Gwobrau yn stadiwm Parc y Scarlets, Llanelli. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i gydnabod a dathlu rhagoriaeth ac arloesi mewn amrywiol feysydd ac yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws y sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ledled Gorllewin Cymru.

Pwysleisiodd Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bwysigrwydd partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r angen am fuddsoddiad ar y cyd wrth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gofal ataliol. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithdai deniadol, sesiynau rhwydweithio a phanel holi ac ateb dan arweiniad Cyfarwyddwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



Ymhellach, roedd y seremoni wobrwyo yn cydnabod unigolion a sefydliadau am eu cyfraniadau a'u cyflawniadau eithriadol. O ddatrysiadau arloesol i gyfraniadau rhagorol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, roedd y rheiny a dderbyniodd y gwobrau hyn yn esiamplau o ragoriaeth ac ymroddiad yn eu meysydd gwaith priodol. Roedd y gwobrau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd i wella profiad pobl yng Ngorllewin Cymru.

Am ragor o wybodaeth am enillwyr y gwobrau a'r rhai oedd yn agos ewch i: https://wwrpb.org.uk/cy/cynhadledd-a-gwobrau-bprhgc-2024-cym/

Yn y llun gwelir staff yn derbyn un o'r gwobrau.

# Rhan 2: Y RHAGLENNI

## Atal a Chydlynu Cymunedol



**Trosolwg:**

Mae atal yn egwyddor arweiniol o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n greiddiol i'r holl ddulliau modelau gofal.


Sefydlwyd y Bwrdd Atal Rhanbarthol yn 2022 i oruchwylio'r gwaith o lywodraethu'r broses o Atal a Chydlynu Cymunedol a modelau gofal Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol Cadarnhaol. Mae'r bwrdd rhanbarthol hwn yn unigryw yn y rhanbarth gan ei fod yn rhychwantu strwythurau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – gydag agenda gyffredin yn ymwneud â llesiant a phwysigrwydd cymunedau cydgysylltiedig cryf. Cytunir ar y weledigaeth ar gyfer y Bwrdd fel a ganlyn:

Mae atal yn ymwneud â chael phobl i aros yn iach, yn hapus ac yn annibynnol cyhyd â phosibl - wedi'u cysylltu â chymunedau bywiog, dyfeisgar a charedig. Mae cefnogi atal yn golygu gwneud dewisiadau gwell mor hawdd â phosibl i bobl gan gydnabod effaith penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant - pa bynnag gam o fywyd y mae pobl arno. Pan fydd angen help ar bobl, cânt eu cynorthwyo i reoli eu hiechyd a'u llesiant yn gynharach ac yn fwy effeithiol a thros gwrs 2023-24, datblygwyd ystod o fentrau sy'n ceisio rhoi gwell cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt barhau i fod yn annibynnol yn eu cymunedau.


Mae amrywiaeth o bartneriaid ynghlwm wrth gyflawni'r thema hon, gan gynnwys: awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ystod o sefydliadau trydydd sector, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.


## Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:

Mae'r data'n dangos bod bron i 251,000 o bobl wedi cysylltu â phrosiectau o fewn y model gofal a bod dros 10,000 o bobl yn cael cymorth gan y prosiectau yn ystod 2023-24. Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau yn darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gyda'r rhan fwyaf o'r cysylltiadau sy'n weddill yn darparu cymorth a chefnogaeth gynnar, sy'n gyson â bwriadau dylunio'r Model Gofal hwn.



## Buddsoddiad 2023-24:




## Enghreifftiau o brosiectau sy'n cael eu cyflawni yn ystod 2023-24

### Catalyddion Gofal

Mae'r prosiect hwn yn cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol a chyflogaeth leol drwy gynorthwyo mentrau micro a mentrau cymdeithasol i ymsefydlu. Mae’r mentrau yn cynorthwyo pobl i dderbyn Taliadau Uniongyrchol, yn galluogi pobl i gael mwy o ddewis a rheolaeth trwy ddarparu gwasanaethau pwrpasol sy’n rhoi’r unigolyn yn y canol, yn ogystal â galluogi gofalwyr di-dâl i gael egwyl o’u rôl o ofalu. Mae amrywiaeth o randdeiliaid yn aelodau o grwpiau rhanbarthol a sirol sy'n llywio gwaith y prosiect ac mae grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i lunio'r prosiect.

Erbyn hyn mae dros 100 o fentrau yn cynnig gwasanaethau cymorth gofal a llesiant yng Ngorllewin Cymru. Mae'r rhain yn unigolion a allai fod wedi dewis llwybr gyrfa arall pe na bai'r cyfle hwn ar gael iddynt. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod talentau ac arbenigedd dros 100 o bobl leol yn cyfrannu tuag at anghenion gofal cymdeithasol y boblogaeth.

Mae gan fentrau hunaniaethau ac arbenigeddau clir a gallant ddarparu gwasanaeth wedi'i bersonoli. Ceir amrywiaeth o arbenigeddau yng Ngorllewin Cymru, sy'n cwmpasu gofal diwedd oes, gofal pobl hŷn, anableddau dysgu, iechyd meddwl, dementia a chymorth i ofalwyr di-dâl. Rydym hefyd yn edrych ar hyn trwy gyfleu diddordebau a dyheadau mentergarwch sy'n rhoi cyfle i bobl gael eu cefnogi gan unigolion sydd nid yn unig â phrofiad yn y sector, ond sy'n galluogi pobl o'r un anian i rannu diddordebau a hobïau trwy ddarparu cefnogaeth, gan wella'r berthynas ofalgar.

Mae'r prosiect wedi golygu bod modd sefydlu cyfeiriadur o fentrau i gynnig gwasanaethau i bobl ar draws y rhanbarth, gan ddarparu cefnogaeth, arweiniad, adnoddau ac offer i wneud hynny yn unol â chod ymarfer y cytunwyd arno. O ganlyniad gall pobl sydd ag anghenion gofal, cymorth a llesiant arfer mwy o ddewis a rheolaeth dros y modd y caiff eu hanghenion eu diwallu. Mae mentrau cymdeithasol a micro yn dod yn fwyfwy amlwg ymhlith preswylwyr a gweithwyr proffesiynol.

Ym mis Mawrth 2024 derbyniodd Lucy Cumings o PLANED wobr Cyfraniad Eithriadol tuag at Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn seremoni wobrwyo Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Roedd y wobr hon yn cydnabod y camau a gymerwyd yn ystod 2023-24 i wireddu'r prosiect, er mwyn sicrhau bod newid gwirioneddol yn cael ei wneud tuag at wella bywydau pobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Gofal a Chymorth.



Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn bwysig wrth gyflwyno'r prosiect o Sir Benfro ac ar draws Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Bydd y buddsoddiad o fudd i'r prosiect drwy gydol ei oes a thu hwnt i hynny.

**Cyfleoedd Dydd Arloesol**

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â chreu cyfleoedd i bobl, gan gynnwys oedolion sydd ag anabledd dysgu a / neu gyflyrau niwroddatblygiad / iechyd meddwl, gan sicrhau bod dull seiliedig ar asedau yn cael ei gymryd, fel bod sgiliau pobl yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi yn eu cymuned eu hunain, gan adeiladu ar asedau cymunedol presennol a newydd yn eu cymunedau eu hunain.

Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym am eu diddordebau a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt hwy a'u teuluoedd. O ganlyniad i hyn, ynghyd â'r wybodaeth am weithgareddau cymunedol, rydym naill ai wedi gallu cefnogi pobl i gael mynediad at weithgareddau neu wedi creu gweithgareddau cymunedol newydd i ganiatáu i bobl ymgymryd â gweithgareddau yn y gymuned.

Ceir perthynas waith agos rhwng staff y prosiect a chysylltwyr cymunedol a'r weledigaeth yw cael ystod eang o gyfleoedd a all gwrdd â gwahanol ddiddordebau, cryfderau, galluoedd ac anghenion, a gallu cysylltu cymunedau ac unigolion, gan ddarparu gwasanaeth cyfannol ac ataliol. Mae rhai cyfleoedd ar raddfa fach eisoes yn cael eu gwireddu gyda phobl yn defnyddio cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn hytrach na defnyddio gwasanaethau dydd traddodiadol.

- Gwnaed gwaith i fapio cyfleoedd a all gefnogi pobl.
- Gwnaed gwaith gyda chymunedau i ddatblygu gweithgareddau newydd sy'n ateb y galw lleol.
- Rhoddwyd ffocws penodol ar weithgareddau awyr agored o ystyried eu heffeithiau cadarnhaol ar lesiant.
- Caiff y prosiect ei werthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae defnyddiwr bellach yn mynd i Ganolfan Ddydd Ffordd y Faenor bum niwrnod yr wythnos ac yn mwynhau amrywiaeth eang iawn o weithgareddau, ar y safle ac oddi arno.

Gall trafnidiaeth i wasanaethau dydd fod yn rhan ddrud o'r gwasanaeth. Drwy ddarparu cyfleoedd yng nghymunedau'r bobl eu hunain caiff y ddibyniaeth ar drafnidiaeth awdurdodau lleol ei lleihau, sy'n fwy cost effeithiol i bawb wrth leihau ein hôl troed carbon.

**Cymunedau Arloesol**

Nod y prosiect yw sicrhau bod mwy o gymorth ataliol lefel isel ar gael i bobl yng Ngorllewin Cymru y gallai fod angen gwasanaethau statudol arnynt fel arall. Mae dull personol yn allweddol ac mae pobl o grwpiau blaenoriaeth wedi bod yn rhan o sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' i helpu i benderfynu pa

weithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael. Mae grwpiau blaenoriaeth hefyd wedi bod yn ymwneud â microgomisiynu gwasanaethau ac wrth gyd-ddylunio manylebau gwasanaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ar gyfer elfennau o'r prosiect cyfan. I grynhoi;

- Cafodd staff eu defnyddio i nodi a chefnogi asedau a gweithgareddau cymunedol. Gwnaed hyn er mwyn gallu cynnig cyfleoedd i fuddiolwyr y prosiect.
- Defnyddiwyd arbenigedd contractio i ddatblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol.
- Mae'r prosiect wedi canolbwyntio'n glir ar gydweithio ar draws sefydliadau, grwpiau a gweithgareddau.
- Mae gwefannau wedi'u datblygu i helpu pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth sy'n cefnogi eu llesiant.
- Lledaenwyd cyhoeddusrwydd, gan gynnwys trwy weithio mewn partneriaeth â gorsafoedd radio.
- Sefydlwyd un pwynt cyswllt i alluogi pobl i gael mynediad i'r prosiect.
- Cynhaliodd cysylltwyr a phobl mewn rolau eraill sgyrsiau gyda phobl i ganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt, er mwyn eu cyfeirio at gymorth cymunedol a (phan fo'n briodol) i ffwrdd o wasanaethau statudol.

**Datrysiadau Gofal trwy Gymorth Technoleg (TEC)**
Mae cyflwyno TEC (Gofal trwy Gymorth Technoleg) yn helpu i atal, oedi a lleihau'r angen y gellir ei osgoi am wasanaethau statudol, mae'n hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion yn gynharach ac yn cefnogi ymyrraeth gynharach.

***Mae'r prosiectau'n cynnwys:***

*1)* Datblygwyd ***Assist My Life*** trwy weithio gyda phoblogaethau â blaenoriaeth. Mae hyn yn fwyaf perthnasol i bobl ag anabledd dysgu a / neu awtistiaeth a chaiff y prosiect ei gefnogi'n uniongyrchol gan bobl â phrofiad bywyd. Mae gofalwyr yn elwa o'r wefan bwrpasol ac yn dilyn y gwaith ymgysylltu sylweddol â gofalwyr fu yn 2020-21 maent wedi helpu i lywio'r fenter hon. Mae gofalwyr hefyd yn cymryd rhan mewn gwerthusiadau o'r wefan i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae *Assist My Life* wedi cael ei ddefnyddio gan riant a'i mab ag anableddau dysgu i ymarfer gwneud cynlluniau teithio i gefnogi ei annibyniaeth. Mae enghraifft arall yn cynnwys person â phroblemau iechyd meddwl: 'mae hi'n cwrdd yn rheolaidd â seicolegydd ac yn dweud wrtho sut mae hi wedi bod yn gwneud. Cyn yr ap roedd hyn yn golygu ei bod hi ond gallu siarad am yr amseroedd gwaethaf a'r adegau pan aeth pethau o chwith gan fod y rhain bob amser ar flaen ei meddwl. Roedd hi'n teimlo bod hyn yn rhoi adlewyrchiad negyddol ohoni ac roedd yn effeithio ar y ffordd yr oedd y seicolegydd yn ei gweld. Defnyddiodd ddyddiadur iechyd AssistMyLife i gofnodi pethau wrth iddynt ddigwydd. Roedd hyn yn golygu bod ganddi nodiadau byr ar ddyddiau da a dyddiau gwael a dechreuodd hefyd weld sut yr oedd yr ymyriadau a roddwyd iddi wedi lleihau'r dyddiau gwael iddi'.

***2) Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru***

Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru GOFALU AM OFALWYR | Carers Support West Wales CARING FOR CARERS

Bellach mae gan ofalwyr di-dâl o bob oed yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro fynediad at wefan ranbarthol newydd i helpu i'w cefnogi yn eu rôl ofalu.

Mae'r wefan yn cynnig ffordd gyflym a hawdd o ddod o hyd i wybodaeth, cymorth a chyngor penodol i ofalwyr di-dâl yn y tair sir. Mae dyluniad, brandio a chynnwys y wefan wedi'u datblygu trwy gydgynhyrchu ac ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a darparwyr ledled y rhanbarth.

*3)* Mae **CONNECT** yn agored i bawb, ond mae o fudd pennaf i oedolion hŷn ac mae'n gweithio i atal, lleihau ac oedi. Mae CONNECT yn cefnogi llawer mwy o bobl yn yr haen 'oedi' na'r disgwyl (23% o'r llwyth achosion yn erbyn 5% a ragwelir) sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol ar y niferoedd sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau cartrefi gofal. O ddiwedd mis Mawrth 2024 caiff effeithiau'r system eu hadlewyrchu isod:

- Cefnogir dros 7,159 o gleientiaid ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru
- 114,723 o alwadau rhagweithiol wedi'u gwneud
- Cyfanswm y galwadau allan am Ymateb – 14,263
- Dim ond 6% o'r galwadau allan am ymateb a uwchgyfeiriwyd i'r Gwasanaethau Brys
- Ymatebwyd i 87% o'r holl alwadau rhanbarthol o fewn 45 munud (Awst 2023 – Medi 2023)
- Gwellodd neu cynhaliodd 80% o gleientiaid eu sgoriau Llesiant ym mhob un o 6 maes yr offeryn canlyniadau a ddefnyddir i fesur pellter a deithiwyd.
- Mae canlyniadau ataliol yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar 42% (Sir Gaerfyrddin yn unig)

Ar wahân i'r manteision amlwg sy'n dangos lefelau uwch o ganlyniadau ataliol wrth y drws ffrynt, mae gwell gwasanaethau cofleidiol yn rhoi gwell canlyniadau i gleientiaid a'r system.

**Canlyniadau**

- ✓ Mae anghenion llesiant pobl yn gwella trwy gael mynediad at ddatrysiadau cymunedol cydlynol
- ✓ Mae datrysiadau atal lleol ac ymyrraeth gynnar yn cefnogi pobl er mwyn atal eu problemau rhag gwaethygu a mynd yn argyfwng
- ✓ Mae'r gwasanaethau'n parhau eu hyrwyddo er mwyn galluogi mwy o ddefnyddwyr posibl i elwa ohonynt
- ✓ Mae gwaith ar y gweill yng Ngheredigion i ddatblygu model newydd ar gyfer darparu TEC
- ✓ Mae Assist My Life yn parhau i ddatblygu i ddiwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu a / neu awtistiaeth yn well
- ✓ Caiff boddhad parhaus y defnyddwyr ei goladu a'i ddadansoddi, gan ysgogi gwelliant parhaus i'r platfform CONNECT


# Gofal Cymhleth yn nes at y Cartref





**Trosolwg:**

Mae'r model 'Gofal cymhleth yn nes at y cartref' yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Llwybrau 'Rhyddhau i Adfer yna Asesu' (D2RA), gan helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol mor agos â phosibl at y cartref mewn ffordd ddi-dor ac integredig.


## Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:







## Buddsoddiad 2023-24




**Dull:**

Mae integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn thema barhaus trwy'r model gofal hwn er mwyn darparu gofal cydgysylltiedig yn y gymuned. Mae cydweithio yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gydweithio a rhannu eu gwybodaeth gan helpu i gael gwared ar ddyblygu ac oedi diangen i'r claf.

Mae datblygu rhwydweithiau cymunedol integredig yn cefnogi cymunedau cryf ac yn dod â thimau amlddisgyblaethol ynghyd i gynorthwyo meddygon teulu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eu cymunedau. Mae'r dull hwn yn defnyddio dull seiliedig ar asedau a gwybodaeth leol i adeiladu timau pwrpasol i ddiwallu anghenion eu cymuned yn well ar draws y sbectrwm cyfan o angen. Mae'r ddarpariaeth yn dibynnu ar gydweithio rhagorol rhwng y trydydd sector, y bwrdd iechyd, awdurdod lleol, y sector preifat, gofal sylfaenol ac, yn bwysicaf oll y cymunedau eu hunain.

Nod y gwaith hwn yw darparu cymorth effeithiol ar gyfer cyflyrau iechyd lluosog ac eiddilwch yn y gymuned yn ogystal â gwella i'r graddau gorau posibl yn dilyn cyfnod o salwch neu ddigwyddiadau bywyd eraill. Wrth wneud hynny, lleihau dibyniaeth ar ofal hirdymor, trwy alluogi ac adsefydlu cymunedol, i wneud y mwyaf o annibyniaeth, lleihau derbyniadau a dibyniaeth ar ofal hirdymor.

Yn ogystal, mae hefyd yn darparu gofal a chymorth integredig cydlynol yn y cartref ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth mwy cymhleth, er enghraifft Timau Ymateb Cymunedol.

Cyflawnwyd nifer o brosiectau yn ystod 2023-24 ac amlinellir rhai enghreifftiau isod.

**Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24:**

### Gwiriadau Iechyd Hygyrch

Mae hwn ar gael i unrhyw un dros 16 oed sydd ag anabledd dysgu ac mae'n helpu i gefnogi unigolion i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u llesiant eu hunain trwy ddeall beth all y gwasanaeth meddygon teulu lleol ei ddarparu a dysgu sut i'w ddefnyddio. Mae hyn hefyd yn helpu gofalwyr (cyflogedig neu ddi-dâl), gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau darparwyr i wella iechyd corfforol pobl ag anabledd dysgu. Mae gan y prosiect dri Hyrwyddwr Gwirio Iechyd (unigolion â phrofiad bywyd), sy'n edrych ar anghenion iechyd cyffredin mewn pobl ag anabledd dysgu a phethau y gellir eu gwneud i'w hatal rhag digwydd neu helpu i'w hatal rhag gwaethygu.

### Creu trefniadau cydweithio yn y Sector Gofal

Mae'r prosiectau yn y rhaglen hon yn datblygu ffyrdd o wella effeithlonrwydd darpariaeth gofal trwy weithio ar draws disgyblaethau a sefydliadau partner. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau sy'n symleiddio ac yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am feddyginiaethau cleifion, adolygu'r ddarpariaeth cyfarpar i gael gwared ar yr angen am ddau ofalwr wrth ddarparu gofal a hyrwyddo ac ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Bydd y timau yn cydweithio i fod yn greadigol ac yn arloesol, gan wella effeithlonrwydd a phrofiadau'r rheiny a gaiff eu cefnogi.

### Gwasanaeth Ymataliaeth Cymunedol a Ffisiotherapi Iechyd Pelfig Integredig

Diben y prosiect hwn fu lleihau cwympiadau drwy ymgorffori sgiliau ffisiotherapi arbenigol mewn iechyd pelfig yn y tîm amlddisgyblaethol coluddyn a phledren cymunedol presennol i sicrhau mynediad lleol teg i driniaeth a darparu newid diwylliannol i atal rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar i gleifion sydd â phroblemau ymataliaeth. Sicrhau mynediad hawdd a lleol i help a chefnogaeth a wreiddir yn y gymuned, gan symud i ffwrdd o ofal eilaidd.

### Rhwydweithiau Cymunedol Integredig

Mae'r prosiect hwn yn darparu mynediad cyflym i ofal rhagweithiol amlddisgyblaethol yn y gymuned yn dilyn atgyfeiriadau gan alwadau brys Delta a WAST, gyda'r nod o leihau trawsgludiadau a derbyniadau ysbytai gan ddarparu cymorth, gwybodaeth a chynllunio gofal sy'n gysylltiedig ag ardaloedd clwstwr meddygon teulu, drwy ddatblygu gweithlu integredig a all ymgymryd â thasgau Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy gysylltu â gwasanaethau gofal canolradd a gwasanaethau'r trydydd

sector i gynorthwyo pobl i aros gartref. Enghraifft o hyn yw model Borth Ceredigion, sy'n defnyddio tîm amlddisgyblaethol i nodi'r unigolion sydd mewn mwy o berygl y gymuned er mwyn ymyrryd yn rhagweithiol a'u cadw'n iach gartref. Mae'r model hwn wedi derbyn cefnogaeth Esiampl Bevan. Mae Porth Preseli yn Sir Benfro hefyd yn canolbwyntio ar y rheng flaen yn y gymuned, gan weithio gyda meddygfeydd i sicrhau bod preswylwyr cartrefi gofal yn gallu cael y cyngor a'r gefnogaeth berthnasol yn ystod a'r tu allan i oriau.

### Rhaglen brentisiaethau integredig ar y cyd

Sefydlwyd y prosiect hwn fel ffordd o ddenu prentisiaid o fewn y sector gofal cymdeithasol, gan gydnabod llwyddiant y Bwrdd Iechyd wrth recriwtio Prentisiaid Gofal Iechyd. Y Rhaglen Brentisiaethau Integredig ar y Cyd yw'r gyntaf o'i bath yng Nghymru. Mae Awdurdodau Lleol yn cael llai o ddiddordeb yn eu swyddi a'u prentisiaethau o gymharu â Byrddau Iechyd ac mae'r dull gweithredu ar y cyd yn rhoi cyfle i ymgeiswyr brofi opsiynau ar draws y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol a gweld y gwaith o fewn cyd-destun ehangach o gyfle, a hynny gan ennill arian a dysgu.

### Mae enghreifftiau o brosiectau eraill yn cynnwys:

**Gwybod eich Hawliau, Rhyddhau Amser i Ofalu, Rhwydweithiau Gofal Integredig Rhagweithiol a Gwasanaeth Gofal a Galluogi wedi'i Dargedu.**

### Canlyniadau

- ✓ Mae pobl yn ymwneud mwy â phenderfynu ble maent yn byw wrth dderbyn gofal a chymorth
- ✓ Mae pecynnau gofal a chymorth cymhleth yn well am ddiwallu anghenion pobl a'u darparu gartref neu'n agos at adref

### Gwerthuso

Cydnabyddir bod nifer o'r prosiectau hyn wedi'u hintegreiddio'n dda i'r system leol a'r ddarpariaeth weithredol ac felly mae angen i ni ganolbwyntio ar sut y gallwn gyflawni mwy o effaith o'r prosiectau hyn.

# Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol Da



**Trosolwg:**

Mae gweithgarwch o dan y model hwn yn cwmpasu ystod o fentrau sy'n ceisio cynorthwyo pobl i barhau'n annibynnol yn well o fewn eu cymunedau, gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' ac wrth wneud hynny, cynyddu'r ystod o wasanaethau a gweithgareddau ystyrlon i bobl mewn grwpiau allweddol, er mwyn sicrhau bod pobl gwybod am y gwasanaethau a'r cyfleoedd presennol. Mae'r ffocws ar hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol cadarnhaol a lleihau'r galw am wasanaethau statudol. Mae'r buddiolwyr yn cynnwys gofalwyr anffurfiol, pobl ag anableddau dysgu, materion iechyd meddwl lefel isel a chyflyrau niwrolegol.

Mae'r gweithgaredd yn cefnogi pobl mewn sawl ffordd, trwy:

- Ddarparu dewisiadau eraill yn lle gofal a chymorth statudol
- Darparu cyfleoedd am waith
- Rhoi seibiant o gyfrifoldebau gofalu anffurfiol


Mae amrywiaeth o bartneriaid ynghlwm wrth gyflwyno'r model hwn, gan gynnwys: awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ystod o sefydliadau trydydd sector, partneriaid cyflenwi busnes, yr Adran Gwaith a Phensiynau, ysgolion, colegau, meddygfeydd yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

**Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:**

Mae dros 6,000 o gysylltiadau wedi'u gwneud gyda'r prosiectau yn y model gofal ac mae 529 o bobl yn defnyddio'r prosiectau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn derbyn help a chymorth a cynnar.

## Faint?

| Nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r prosiect (HM1) | Nifer yr unigolion newydd sy'n defnyddio'r prosiect am y tro cyntaf (HM2) | Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HM3) | Nifer y cysylltiadau (HM4) |
|---|---|---|---|
| 529 | (Gwag) | 878 | 6,090 |




Nifer y bobl sy'n derbyn...

*Caiff HM1 a HM5-8 eu cyfrifo yn ôl y ffigur diweddaraf a gofnodwyd. Er efallai na fydd hyn yn dal pob unigolyn, mae'n atal cyfrif dwbl (neu 6x) o'r adroddiadau chwarterol neu fisol.*

*Mae HM2-4 yn agregiadau o'r holl adroddiadau yn y cyfnod adrodd.*

## Pa mor dda?

Canran yr unigolion sy'n fodlon â...

| ...Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (HW2) | ...Help a Chymorth Cynnar (HW3) | ...Cymorth Dwys (HW4) | ...Ymyrraeth Arbenigol (HW5) |
|---|---|---|---|
| (Gwag) | 97.4% | 87.9% | (Gwag) |


% yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HW1): 68.2%

## Gwahaniaeth a wnaed?

| % yr unigolion sy'n teimlo'n llai ynysig o ganlyniad i gefnogaeth y prosiect (DM1) 11 | % yr unigolion sy'n cynnal neu'n gwella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol (DM2) | % yr unigolion sy'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau yn dilyn cefnogaeth y prosiect (DM5) |
|---|---|---|
| 75.9% | 89.0% | 100.0% |

## Buddsoddiad 2023-24

**£1,708,658**
Gwariant a gadarnhawyd hyd yma




## Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24

### Seibiant Gofalwyr

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer egwyliau a seibiannau byr, a gynhyrchwyd ar y cyd gyda gofalwyr di-dâl ac mae'n symud y tu hwnt i ofal seibiant. Mae amrywiaeth o gyfleoedd yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn gallu cael seibiannau ystyrlon, sy'n cynnwys mynediad am brisiau gostyngol neu am ddim i wasanaethau a gweithgareddau, a threfniadau pwrpasol sy'n diwallu'r angen. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddylunio darpariaeth yng nghyd-destun strwythurau sirol i sicrhau effaith i ofalwyr; ymgysylltu â gofalwyr i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu; archwilio opsiynau comisiynu i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu a bod effeithlonrwydd yn cael eu sicrhau a gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod ystod eang o opsiynau ar gael i ofalwyr.

### Buddsoddwyr mewn Gofalwyr

Mae'r prosiect hwn yn gweithio gydag ystod eang o leoliadau (gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, a sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) i gefnogi'r gwaith o adnabod gofalwyr yn gynnar a'u cyfeirio at help a chymorth cynnar ychwanegol – un o nodau allweddol Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru. Mae'n gynllun sicrhau ansawdd sy'n seiliedig ar arfer gorau, gyda safonau thematig, archwilio ac ardystio. Cyflwynir hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff drwy'r prosiect a chyrhaeddwyd 700 o bobl dros y cyfnod adrodd. Darperir cymorth hefyd i leoliadau sy'n gweithio tuag at lefelau achredu gydag 11 yn derbyn lefel efydd newydd a chwech wedi cael eu hailddilysu.

### Cyfeillion Ymarfer

Yn aml, mae gan oedolion ag anabledd dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol anghenion iechyd cymhleth a gall y rhain gael eu gwaethygu gan nifer o ffactorau megis gordewdra, diabetes, a ffyrdd o

fyw eisteddog, sydd i gyd yn cael effaith ar iechyd a llesiant. Nod y prosiect rhanbarthol hwn yw cynyddu faint o weithgarwch corfforol y mae pobl ag anableddau yn cymryd rhan ynddo. Ers dechrau'r rhaglen hon cynyddodd nifer y bobl ag anabledd dysgu a theuluoedd a gofalwyr di-dâl sy'n cymryd mwy o ran mewn gweithgarwch corfforol.

Mae'r prosiect yn helpu i sicrhau y gall llawer mwy o bobl ag anableddau roi cynnig ar wahanol weithgareddau a meithrin eu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol y tu allan i wasanaethau, yn ogystal â ffurfio cysylltiadau cymdeithasol a gwella hunan-barch. Nod arall y prosiect yw cynyddu faint o weithgarwch corfforol y mae rhieni/gofalwyr (cyflogedig a di-dâl) yn ei wneud.

### Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol

Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i weithio gydag oedolion/oedolion ifanc sydd ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol gan fod o fudd i unigolion yn ogystal â gofalwyr di-dâl, teuluoedd a gofalwyr cyflogedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith dwys gydag unigolion i ddatblygu strategaethau atal ac adweithiol sylfaenol ac eilaidd lle mae angen hynny er mwyn sicrhau cymorth wedi'i deilwra. Bellach mae gan y Gyfnewidfa Ymarfer Ymddygiad Cadarnhaol 45 o aelodau ac mae'n cydweithio â gwasanaethau Seicoleg, Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu (CTLD) a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBIS) presennol. Mae'r dull hwn yn darparu cefnogaeth yn unol â Chynlluniau Ymddygiad Cadarnhaol a gynhyrchwyd ar y cyd sy'n defnyddio sgiliau a thalentau unigol ac yn nodi strategaethau i osgoi argyfwng.

### Llwybrau at Gyflogaeth

Mae'r prosiect rhanbarthol hwn yn cefnogi llwybrau cyflogadwyedd a dilyniant ar gyfer unigolion sy'n byw gydag anableddau gyda 70 o wahanol sefydliadau a gwasanaethau penodol wedi'u cyfeirio at y rhaglen hyd yma. Mae'n cynnwys datblygu Cynllun Cyflogadwyedd rhanbarthol, a fydd yn cynnwys mynd ati ar y cyd i sefydlu llwybrau dilyniant i annibyniaeth, gyda chysylltiadau agos ag addysg bellach a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) lleol. Bydd cyflogaeth â chymorth bresennol yn cael ei hymgorffori gan greu cysylltiadau agosach at fyw â chymorth a datblygu sgiliau ehangach ac mae'r gefnogaeth gyfannol a ddarperir gan y tîm wedi golygu bod pobl wedi bod yn fwy parod ac abl i ymwneud yn gadarnhaol â gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae gan y timau ar draws y rhanbarth berchnogaeth o'r ffordd y caiff y cymorth ei ddarparu, sy'n beth pwysig; gallant ymateb i anghenion lleol a gallant ddatblygu sgiliau a gwybodaeth cymorth cyflogadwyedd trwy ddarparu.

### Hyrwyddwyr Dinasyddion

Mae'r prosiect hwn yn helpu i sicrhau bod dinasyddion o bob grŵp poblogaeth â blaenoriaeth yn cael llais mewn gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion a bod pobl sydd â phrofiad bywyd yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau i wella canlyniadau gwasanaethau. Caiff saith o hyrwyddwyr eu cyflogi a'u cefnogi, ac maent yn weithgar mewn meysydd gan gynnwys cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd, cefnogi cymheiriaid (e.e. cadw'n heini ac yn iach), gan helpu i ddarparu gwybodaeth Hawdd ei Deall a hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi'i arwain gan ddinasyddion.

Datblygwyd llawlyfr ymgysylltu â dinasyddion hefyd, gan egluro'r rôl ymhellach a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sydd â phrofiad bywyd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau i wella canlyniadau gwasanaethau.

### Partneriaid ar gyfer y Daith

Nod y prosiect hwn yw cynnig cymorth a chyngor iechyd meddwl lefel isel gyda materion cymdeithasol ymarferol i'r gymuned. Mae Cyngor ar Bopeth a Mind yn sicrhau proses gydlynol o dderbyn atgyfeiriadau ac asesu sut y gellir cefnogi cleientiaid, ac mae wedi sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol yn gyson i gleientiaid sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael a phryderon ymarferol yn ymwneud ag iechyd. Mae cryfderau a gwybodaeth y sefydliadau unigol yn helpu cleientiaid i fod y sefyllfa orau bosibl i symud ymlaen â'u bywydau. Mae cleientiaid yn cael eu helpu i ddatrys ymholiadau ynghylch

budd-daliadau, dyled, tai, ynni, materion perthynas, yn ogystal â mynd i'r afael â materion iechyd meddwl ac awgrymu llwybrau a chymorth sydd ar gael i ddatrys unrhyw broblemau y mae'r cleientiaid yn eu profi yn hyn o beth. Mae'r prosiect hwn yn helpu i atal pryderon iechyd pellach rhag gwaethygu.

**Tyfu eich gweithwyr cymdeithasol eich hun**

Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n gadael y brifysgol yn parhau i ostwng yng Nghymru. Nod y prosiect hwn yw mynd i'r afael â'r gwaith o recriwtio a chadw materion gweithwyr cymdeithasol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru, drwy ddatblygu carfan o weithwyr cymdeithasol newydd. Ar y pwynt recriwtio, caiff cynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol presennol eu hannog i ddatblygu eu gyrfa trwy ymgeisio am y radd Gwaith Cymdeithasol trwy ddarparwr addysg perthnasol. Ymgymerodd myfyrwyr â'u hastudiaethau yn ystod 2023, gyda disgwyliad y byddant yn gwbl gymwys ac yn eu swydd erbyn hydref 2024. Mae'r ffocws ar dyfu'r gweithlu, fel y bydd y rheiny sy'n cael eu cefnogi drwy'r prosiect yn defnyddio eu sgiliau a'u hamser yn gweithio gyda phobl â phroblemau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn ogystal â phobl ag anabledd dysgu a'r rheiny sy'n niwroamrywiol.

**Canlyniadau**

- ✓ Mae pobl yn cael gwell cefnogaeth i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u llesiant eu hunain
- ✓ Mae gan bobl well sgiliau, gwybodaeth a hyder i fod yn annibynnol wrth gydnabod eu hanghenion llesiant eu hunain

# Cefnogi Teuluoedd a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal




**Trosolwg:**

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni hyn yn cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, anghenion iechyd a llesiant emosiynol, anableddau dysgu ac anghenion niwroddatblygiadol. Mae hefyd yn galluogi teuluoedd, lle mae'r materion hyn yn ffactorau amlwg, i gyflawni nodau llesiant, gwella perthnasoedd a chynnal perthnasoedd presennol trwy aros gyda'i gilydd neu pan fydd plant sydd â'r anghenion hyn yn cael eu dychwelyd adref o ofal.

**Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:**


Faint?

| Nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r prosiect (HM1) | Nifer yr unigolion newydd sy'n defnyddio'r prosiect am y tro cyntaf (HM2) | Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HM3) | Nifer y cysylltiadau (HM4) |
|---|---|---|---|
| 395 | 112 | 557 | 195 |





*Caiff HM1 a HM5-8 eu cyfrifo yn ôl y ffigur diweddaraf a gofnodwyd. Er efallai na fydd hyn yn dal pob unigolyn, mae'n atal cyfrif dwbl (neu 6x) o'r adroddiadau chwarterol neu fisol.*

*Mae HM2-4 yn agregiadau o'r holl adroddiadau yn y cyfnod adrodd.*




## Buddsoddiad 2023-24

**£1,724,562**
Gwariant a gadarnhawyd hyd yma




## Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24

### Ar Ffiniau Gofal:

Nod y maes gwaith hwn yw cyfrannu at newid system wasanaeth, gan alluogi'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o fewn y gwasanaethau plant yn fwy effeithiol.
Mae gan y gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal fynediad at Arbenigwr Ymyrraeth Iechyd y tîm, gyda chymorth yn cael ei ddarparu gan Arbenigwr Ymyrraeth Iechyd os oes angen. Mae gan y prosiect hefyd fynediad

i'r Seicolegydd ar gyfer Ymyrraeth Therapiwtig a Chyfeiriad Achosion sydd wedi arwain at fod teuluoedd, gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr yn gallu deall anghenion pobl ifanc yn well. Mae hefyd yn golygu bod modd creu cynlluniau i sicrhau bod dulliau o ymdrin ag anghenion y person ifanc yn cael eu hystyried a'u defnyddio i leihau risg, gwella diogelwch a chryfhau neu drwsio'r perthnasoedd presennol a bod yn ddewis arall yn lle maethu neu orchmynion gofal.

Mae hwn yn faes gwaith pwysig o safbwynt derbynnydd y gwasanaeth ond hefyd gan nodi mai cost flynyddol gyfartalog y Gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal, gan gynnwys cyllid cyfatebol (dros y 4 blynedd a ragwelir hyd at 2027) yw tua £450,000 a byddai cost dim ond 23 o blant sy'n dod i mewn i'r system pobl ifanc sy'n derbyn gofal rhwng £1.2m - £6.5m (yn fras). Gall plant a gedwir allan o ofal awdurdodau lleol drwy fentrau cefnogol fel hyn arbed cost fisol o £4333 y plentyn ar gyfartaledd neu oddeutu £143 y dydd.

**Tyfu eich gweithwyr eich hun**

Datblygwyd hyn mewn ymateb i'r galw cynyddol a'r anhawster o ran denu gweithwyr cymwys i adleoli i Orllewin Cymru. Mae'n gwneud pethau'n wahanol trwy nodi staff sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi mewn rolau cysylltiedig a'u recriwtio ar raglen ddatblygu, sydd hyd yma yn cyflawni cyfradd llwyddiant o 100%.

**Cam i fyny/cam i lawr**

Mae hwn yn fodel cymorth cynnar i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg a'u hatal rhag gwaethygu / lleihau'r graddau y maent yn gwaethygu, gan gynnwys Hyfforddiant Ystyriol o Drawma ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae hyn yn ymateb i anghenion carfannau penodol o'r grŵp poblogaeth megis mamau amenedigol sydd ag afiechyd meddwl, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a salwch meddwl.

Mae llais y person ifanc yn cael ei gofnodi ar ddechrau'r Hyfforddiant Ystyriol o Drawma (yn ogystal â'r pellter a deithiwyd ar gyfer y staff) ac mae pobl ifanc wedi dweud eu bod yn hoffi cael rhywun o'r tu allan i'r ysgol i'w cefnogi gyda strategaethau i ddygymod yn well yn y dosbarth ac yn ystod amser anstrwythuredig.

**Gofalwyr Ifanc**

Fel prosiect yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cefnogi gofalwyr ifanc sydd mewn rôl ofalu sylweddol sy'n effeithio ar eu haddysg, eu bywyd cymdeithasol neu eu hiechyd emosiynol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda gofalwyr ifanc a rhieni i ddatblygu cynlluniau cymorth pwrpasol yn seiliedig ar angen a nodwyd. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cefnogaeth grwpiau cymheiriaid, cyfleoedd cymdeithasol, cymorth penodol 1-1 ac eiriolaeth yn ogystal â darparu cardiau Gofalwyr Ifanc. Ymhellach, lle bo hynny'n briodol, mae rhieni/aelodau eraill o'r teulu yn cael eu cyfeirio at asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Oedolion, y sector Iechyd, sefydliadau'r Trydydd Sector a Thai, i helpu i leddfu'r rôl o ofalu sydd gan ofalwr ifanc.

**Cymorth Iechyd Meddwl Amenedigol**

Mae'r prosiect hwn yn cwmpasu tair sir ac yn darparu cefnogaeth gyffredinol wedi'i thargedu i deuluoedd, lle mae dod yn feichiog / yn rhiant newydd yn eu rhoi mewn mwy o berygl o wynebu heriau iechyd meddwl, a allai arwain at y risg o esgeuluso plant a bod angen lletya plant.

**Diogelu ac Asesu ysgolion**

Mae'r prosiect hwn yn golygu bod modd darparu help cynnar a chymorth atal i ysgolion a phlant oed ysgol mewn perthynas â materion amddiffyn plant, gan gynnwys a oes angen gwneud atgyfeiriadau diogelu i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol neu a yw atgyfeiriad ar gyfer Cymorth Ymyrraeth Gynnar/Atal yn fwy priodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor, arweiniad a hyfforddiant i staff ysgolion gan roi'r pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer plant a theuluoedd.

**Llety Diogel**

Mae 'Rhaglen Lywodraethu 2021-2026' Llywodraeth Cymru (Rhaglen lywodraethu: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU) yn cyfeirio at nifer o ymrwymiadau ond y rhai sy'n benodol i ddarparu Llety Diogel yw:

- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos i'w cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo'n ymarferol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn yng Ngorllewin Cymru, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi goruchwylio'r gwaith o ddatblygu llety diogel ar gyfer plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, mawr. Mae gwaith wedi'i gwblhau ar un cyfleuster o'r fath yn ystod 2023-24 gyda gwaith strwythurol yn mynd rhagddo mewn cyfleusterau preswyl eraill ar draws y rhanbarth.

Mae darparu'r cartrefi hyn yn hanfodol er mwyn helpu i atal anghenion rhag gwaethygu a hwyluso'r broses o ddad-ddwysáu o ofal diogel i gleifion mewnol yn ogystal â darparu seibiannau byr, cyfnodau o arsylwi ac asesu. Fel y cydnabyddir yn Strategaeth Gyfalaf 10 mlynedd Gorllewin Cymru, mae datblygu hybiau integredig yn allweddol i ddarparu rhai o'r gwasanaethau cymunedol sydd eu hangen i gefnogi Plant a Phobl Ifanc a'u teuluoedd mewn amgylchedd anffurfiol ac anfygythiol.

**Mae enghreifftiau o brosiectau eraill yn cynnwys:**

Mae prosiectau eraill yn ymwneud â gwasanaeth Cymorth Gwarcheidwad Arbennig ac mae darparu gwasanaeth a gwaith Therapydd Galwedigaethol integredig Plant yn cael ei ddatblygu i ddarparu 'Cefnogaeth drws ffrynt', sy'n ceisio cefnogi teuluoedd lle ceir problemau cam-drin domestig, afiechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

**Y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc Rhanbarthol**

Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector, wedi cyfarfod unwaith yn ystod 2023-24 ac ar ôl recriwtio arweinydd ar gyfer y maes gwaith hwn, nodwyd bod ailsefydlu'r Bwrdd yn flaenoriaeth ar gyfer 2024-25.
Mae blaenoriaethau strategol allweddol y bwrdd yn cynnwys y canlynol:

- Iechyd emosiynol plant a phobl ifanc
- Cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd
- Diwallu anghenion plant ag anghenion cymhleth

Mae prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn darparu cymorth yn bennaf i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys popeth gan fod yna hefyd brosiectau sy'n cyrraedd grwpiau poblogaeth eraill â blaenoriaeth gan gynnwys: pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroddatblygiadol a phobl ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl. Bydd gwaith yn parhau i gryfhau'r cyd-gynhyrchu a defnyddio llais plant a phobl ifanc i ddylanwadu ymhellach ar y meysydd gwaith hyn.

**Dim Drws Anghywir a NYTH/NEST**

Mae plant a'u teuluoedd sy'n ceisio cymorth ar gyfer ystod o anghenion yn aml yn canfod bod yn rhaid iddynt ddod o hyd i'w ffordd trwy system gymhleth iawn, ac o ganlyniad gallant syrthio trwy fylchau lle nad oes gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, neu fod ar restr aros am amser hir dim ond i gael gwybod eu bod yn aros yn y ciw anghywir, neu wedi bod yn curo ar y drws anghywir yr holl amser. Mae'r maes gwaith hwn yn herio partneriaid i gydweithio'n well wrth ddarparu cymorth di-dor ac

ymatebol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd, gan weithredu'r fframwaith NYTH/NEST.

Adnodd cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Fframwaith NYTH/NEST, sy'n sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.  Am ragor o wybodaeth cyfeirier at: Nyth Cymru | Nest Wales

**Canlyniadau**

- ✓ Darparu gwasanaeth ar ffiniau gofal, sy'n ceisio cryfhau teuluoedd a gwella perthnasoedd. Mae hyn wedi galluogi plant i barhau i fyw o fewn eu rhwydwaith teuluol yn ddiogel
- ✓ Datblygu sgiliau magu plant ar gyfer y rhieni hynny y mae eu plant ar ffiniau gofal
- ✓ Cefnogaeth i Warcheidwaid Arbennig trwy gwblhau mannau cymorth blynyddol rheolaidd, adolygiadau ariannol, a chefnogi cymheiriaid
- ✓ Datblygu carfan o weithwyr cymdeithasol newydd, i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau a gweithio gyda phlant a theuluoedd
- ✓ Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr arbenigol iechyd meddwl yn y trydydd sector i greu cynlluniau adfer gyda theuluoedd, lle bu pryder ynghylch camddefnyddio sylweddau, trais domestig ac iechyd meddwl
- ✓ Mynd ati ar y cyd i greu ymateb a chynllun gweithredu cyraeddadwy ar gyfer yr argymhellion a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad Dim Drws Anghywir
- ✓ Mynd ati ar y cyd i asesu a ydym fel rhanbarth yn cydymffurfio ag egwyddorion Fframwaith NYTH/NEST
- ✓ Nodi cyfleoedd i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed er mwyn llywio cynllunio strategol
- ✓ Datblygu cyfleoedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ynghylch egwyddorion NYTH/NEST
- ✓ Cynyddu faint o lety diogel sydd ar gael yn y rhanbarth yn ystod 2023-24

# Gartref o'r ysbyty




**Trosolwg:**

Mae'r model 'Gartref o'r Ysbyty' yn sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod gofal a chymorth yn cael ei gynnig i helpu pobl i aros yn iach gartref a bod gofalwyr di-dâl sy'n darparu gofal anffurfiol yn cael eu cefnogi. Mae ein modelau cenedlaethol o 'Ofal Cymunedol' wedi'u cynllunio i ddarparu gofal ataliol a lle bo angen, i ymateb yn gyflym i atal yr angen i bobl gael eu cludo i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae angen asesiad/triniaeth acíwt mewn amgylchedd ysbyty ar rai pobl; felly mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r model Gofal Brys ac Argyfwng sy'n galluogi pobl i wella gartref mor gyflym a diogel â phosibl a bod anghenion gofalwyr di-dâl sy'n darparu rôl ofalu anffurfiol hefyd yn cael eu hystyried yn ystod trafodaethau am ryddhau pobl o'r ysbyty. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o greu capasiti mewn lleoliadau iechyd a gofal, gan sicrhau bod y rheiny sydd angen gofal acíwt yn gallu cael hynny mewn modd diogel ac amserol.

Mae'r gwaith a wnaed trwy'r ymyriad hwn wedi helpu pobl i fynd adref o'r ysbyty yn gynt gyda'r cymorth angenrheidiol ar waith ar adeg eu rhyddhau ac mae gan bobl well dealltwriaeth o'r broses ryddhau ac maent yn cael eu cynnwys i raddau mwy wrth gynllunio cyn ac ar ôl eu rhyddhau.

**Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:**



**Pa mor dda?**

**Canran yr unigolion sy'n fodlon â...**

| ...Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (HW2) | ...Help a Chymorth Cynnar (HW3) | ...Cymorth Dwys (HW4) | ...Ymyrraeth Arbenigol (HW5) |
|---|---|---|---|
| **9.9%** | **99.1%** | **100.0%** | (Gwag) |


% yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HW1) **90.8%**

**Gwahaniaeth a wnaed?**

| | |
|---|---|
| % yr unigolion sy'n teimlo eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt (DM3) **94.7%** | % yr unigolion sy'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau yn dilyn cefnogaeth y prosiect (DM5) **84.7%** |
| % yr unigolion y mae eu hannibyniaeth wedi gwella neu aros yr un fath gyda chefnogaeth y prosiect (DM4) **99.1%** | % yr unigolion a dderbyniodd gymorth sydd wedi atal eu hanghenion rhag dwysáu (DM6) **98.2%** |

## Buddsoddiad 2023-24

£5,953,353
Gwariant a gadarnhawyd hyd yma



**Enghreifftiau o'r ffrwd waith a gyflwynwyd yn ystod 2023-24**

**D2RA (Rhyddhau i Adfer ac Asesu)**
Mae hyn yn cyfeirio at ofal a chymorth a gynigir i gleifion er mwyn iddynt adael yr ysbyty ar gyfer adferiad parhaus ac yna cael eu hasesu gan geisio cyfyngu ar amser diangen mewn lleoliadau ysbyty a gwella'r canlyniadau. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y rhanbarth, a chaiff y gwaith ei ariannu drwy gyllidebau craidd.
Caiff Grŵp Strategaeth Rhyddhau rhanbarthol i oruchwylio'r holl ffrydiau gwaith a chamau gweithredu cyfredol ei sefydlu, yn ogystal â gwaith yn ymwneud â pholisïau cenedlaethol a lleol – gan gynnwys; Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal, Polisi Rhyddhau Amharod, Polisi Cartref Gofal o Ddewis.

**Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr**
Mae hyn yn darparu continwwm o gymorth i ofalwyr di-dâl i gynorthwyo'r broses o ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty trwy gefnogi a chynnwys y gofalwr di-dâl yn y broses o ryddhau'r sawl y maent yn gofalu amdano. Rhan o'r gwasanaeth hwn hefyd yw darparu hyfforddiant i staff i alluogi staff i adnabod gofalwyr di-dâl cyn gynted â phosibl a sicrhau eu bod yn gwybod sut i atgyfeirio gofalwyr i'r Swyddogion Gofalwyr sy'n gweithio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

**Cymorth yn y gymuned**
Mae'r maes gwaith yn datblygu'r cysyniad o frysbennu ac asesu integredig ymhellach ac mae wedi'i wreiddio yn 'yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn'. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth a darparu gofal personol trwy ddefnyddio'r aelod iawn o'r tîm ar yr adeg iawn, atal anghenion iechyd neu ofal rhag dwysáu neu ddad-ddwysáu argyfwng. Mae hefyd yn gwella cyfathrebu ac yn atal dyblygu, yn ogystal â ffurfio sail y llwybr Gofal Sylfaenol Brys. Mae'n cynnwys ystod o waith sy'n cael ei wneud naill ai ym mhob ardal awdurdod lleol neu ar draws y rhanbarth, gan gynnwys; gweithredu Canolfan Cydlynu sy'n darparu un lle ar gyfer cydlynu a brysbennu atgyfeiriadau ac ymholiadau ynghylch anghenion gofal arferol/cynlluniedig, brys a chanolradd ar gyfer y boblogaeth, osgoi derbyniadau, Rheoli Traffig Gofal, Therapïau a Phartneriaid Gofal Canolraddol, cynllunio ar gyfer rhyddhau cymhleth, Gwasanaethau Gofal Brys a Chanolraddol integredig ac Ailalluogi.

**Cefnogaeth y trydydd sector dan arweiniad y gymuned**
Gwasanaeth tymor byr hyblyg sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartref eu hunain tra eu bod yn sâl neu'n gwella ar ôl cyfnod o salwch. Nod y gwasanaeth yw atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso'r gwaith o ryddhau pobl yn gynnar o'r ysbyty ac mae'n elfen hanfodol o reoli'r galw o safbwynt yr ysbyty a thimau gofal cymdeithasol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu llwybr atgyfeirio di-dor i ddarparu ystod o wasanaethau gan gynnwys cymorth i weithwyr achos, cludiant cymunedol, addasiadau i'r cartref/gwiriadau Cartref Iach a chymorth gan wirfoddolwyr. Darperir darpariaeth ranbarthol gan:

- Y prosiect Cwtch yng Ngheredigion sy'n cael ei redeg gan y Groes Goch Brydeinig gyda chefnogaeth gan CAVO a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru
- Y prosiect PIVOT yn Sir Benfro sy'n cael ei redeg gan PAVS gyda'r Groes Goch Brydeinig, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO) a Materion Gwirfoddoli.

**Mae enghreifftiau o brosiectau eraill yn cynnwys:**

- **Gwell gofal cymunedol -** yn ymwneud â'r ddarpariaeth 'Ysbyty yn y Cartref' gyda ffurfio Wardiau Rhithwir.
- **Trusted Assessors** - ensuring a consistent approach to assessment across the region

- **Troi rownd wrth y drws ffrynt / osgoi derbyn / gofal heb ei drefnu** - Asesu wrth y drws ffrynt yn seiliedig ar ddull eiddilwch ym mhob safle acíwt.
- **Cymorth cyn / ar ôl derbyn** Rhaglen addysg cleifion ar gyfer derbyniadau a gynllunnir, i helpu i ddeall y broses a'r opsiwn i eithrio, gyda chymorth ôl-dderbyn ychwanegol i hwyluso rhyddhad cynharach.
- **Cam i fyny/ cam i lawr** Caiff darpariaeth gofal amgen ei chreu drwy gynlluniau cyllido cyfalaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau i ddarparu gofal seibiant i ofalwyr, byw â chymorth, D2RA a chanolfannau asesu plant gyda'r nod o ddad-ddwysáu'r angen a'u dychwelyd adref.

**Canlyniadau**

- ✓ Ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol; gwasanaethau di-dor, a ddarperir mor agos â phosibl at y cartref; defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel lle gellir gofyn am wasanaethau lluosog o un atgyfeiriad
- ✓ Defnyddio adnoddau'n effeithlon – gweithio gydag arweinwyr gwasanaethau cymunedol fel tîm amlddisgyblaethol i benderfynu ar yr ymateb mwyaf effeithlon
- ✓ Hwyluso'r broses o ryddhau pobl yn amserol o ysbytai acíwt a chymunedol, gwella llif cleifion a lleihau hyd arosiadau yn yr ysbyty trwy ryddhau pobl gyda chymorth
- ✓ Atal derbyniadau drwy ddarpariaeth gymunedol a'r defnydd o wardiau rhithwir
- ✓ Lleihad yn nifer y bobl a gaiff eu derbyn a'u haildderbyn i'r ysbyty
- ✓ Lleihad mewn cludiant gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i'r ysbyty ac o'r ysbyty
- ✓ Mae gan bobl well dealltwriaeth o'r broses ryddhau ac maent yn ymwneud mwy â chynllunio cyn ac ar ôl rhyddhau

# Datrysiadau Seiliedig ar Lety



**Trosolwg:**

Mae hyn yn ei gamau datblygu cynnar, gyda newid o'r ddibyniaeth i leoliadau gofal preswyl a gomisiynwyd tuag at fyw'n fwy annibynnol. Mae hyn yn amlwg drwy'r llwyddiannau fel rhan o'r rhaglen Dilyniant i Fyw'n Annibynnol, yn ogystal â'r Rhaglen Gyfalaf Ranbarthol newydd sy'n dylanwadu ar well undod mewn trefniadau comisiynu a chynllunio llety o fewn awdurdodau lleol.


Mae'r dull yn seiliedig ar leihau'r galw ar wasanaethau acíwt trwy adeiladu llwybr cadarn i gefnogi pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn fwy effeithiol yn eu cymunedau eu hunain, gan eu cadw'n iachach am gyfnod hirach yn eu dewis breswylfa ac er mwyn i'r rheiny sydd mewn gofal preswyl gael mynediad at wasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion; symud ymlaen neu ddychwelyd i lety â chymorth.

Bu datblygiadau sylweddol yn 2023-2024 i gael gwell cysondeb rhwng y gwaith o gynllunio llety a rheoli cynlluniau cyfalaf a'r galw am lety anghenion arbenigol a chyffredinol. Taflwybr y rhaglen gyfalaf yw mwy na £13m ar gyfer 2024/2025 ar draws gwahanol fathau o eiddo a grwpiau poblogaeth. Mae hyn yng nghyd-destun y cynllun rhanbarthol 10 mlynedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn llety ochr yn ochr â Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.  Fodd bynnag, mae'r isod yn ymwneud ag atebion sy'n seiliedig ar lety yn unig.

## Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:

### Faint?

| Nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r prosiect (HM1) | Nifer yr unigolion newydd sy'n defnyddio'r prosiect am y tro cyntaf (HM2) | Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HM3) | Nifer y cysylltiadau (HM4) |
|---|---|---|---|
| 116 | (Gwag) | (Gwag) | (Gwag) |




*Caiff HM1 a HM5-8 eu cyfrifo yn ôl y ffigur diweddaraf a gofnodwyd. Er efallai na fydd hyn yn dal pob unigolyn, mae'n atal cyfrif dwbl (neu 6x) o'r adroddiadau chwarterol neu fisol.*

*Mae HM2-4 yn agregiadau o'r holl adroddiadau yn y cyfnod adrodd.*

### Pa mor dda?

**Canran yr unigolion sy'n fodlon â...**


| ...Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (HW2) | ...Help a Chymorth Cynnar (HW3) | ...Cymorth Dwys (HW4) | ...Ymyrraeth Arbenigol (HW5) | % yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd (HW1) |
|---|---|---|---|---|
| (Gwag) | (Gwag) | 93.8% | (Gwag) | (Gwag) |

### Gwahaniaeth a wnaed?

% yr unigolion sy'n teimlo eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt (DM3)

**99.3%**

## Buddsoddiad 2023-24:




## <u>Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24</u>

### Llety canolradd a cham i lawr:

Mae'r llety a ddarperir yn Nhŷ Pili Pala yn galluogi pobl i gael cefnogaeth yn y gymuned fel dewis arall yn lle derbyniadau i'r ysbyty.  Caiff y ddarpariaeth cam i lawr ei chefnogi gan dîm amlddisgyblaethol gyda chysylltiadau i ailalluogi neu adsefydlu sy'n berthnasol i anghenion y cleient a'r hyn sy'n bwysig iddo er mwyn bod mor annibynnol â phosibl.  Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i nodi ac ennill nodau personol a osodir fel rhan o'u hasesiad o anghenion sy'n anelu at gael y claf adref yn brydlon.  Mae hyn hefyd yn arwain at fod gartref am gyhyd ag y bo modd heb fod angen neu leihau'r angen am wasanaeth statudol yn y tymor hir neu atal mynediad i gartref preswyl/nyrsio yn gynamserol.

Rhannwyd y data canlynol yn Chwarter 2 (Tŷ Pili Pala). Mae 81% o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu rhyddhau heb unrhyw wasanaeth, mae 6% wedi'u rhyddhau gydag anghenion tymor byr ac mae 13% wedi'u rhyddhau gydag anghenion tymor hir. Mae hyn yn dangos llwybr rhyddhau llwyddiannus ac mae'n gwella llif y system. Mae gallu therapïau i ddilyn y claf yn ei gartref ei hun o Dŷ Pili Pala hefyd yn caniatáu trosglwyddo llyfnach a lleddfu pryderon cleifion o fynd adref.

Mae gwybodaeth a dysgu o gynlluniau cyfalaf presennol hefyd yn cael eu rhaeadru rhwng Modelau Gofal a ffrydiau cyllido eraill fel y bo'n briodol e.e. mae'r gwersi a ddysgwyd o ddatblygu'r Adain Dementia yng nghartref gofal Hafan Deg yng Ngheredigion, er enghraifft, yn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau a ariennir gan y dyraniad a glustnodwyd i gefnogi gweithrediad y  Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ac i lywio datblygiad cartrefi gofal yn y dyfodol gyda'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf ar draws y rhanbarth, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu â hwb RIC Gorllewin Cymru.

### Gofal canolradd a cham i lawr

Ei nod yw lleihau'r pwysau ar wasanaethau acíwt gyda lleoliadau tymor byr yn darparu gofal ailalluogi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn cartrefi gofal lleol, gan ryddhau pobl yn ddiogel, yn amserol a chyda chymorth o'r ysbyty cyn iddynt ddychwelyd adref. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sydd angen

cael eu monitro gan nyrs 24 awr o'r dydd er mwyn asesu anghenion gofal tymor hwy a chefnogi'r rheiny sydd ar fin bod angen darpariaeth statudol i gadw cymaint â phosibl o'u hannibyniaeth gartref.

**Gofal Canolraddol yn y Gwely (Cam i lawr i fyw â chymorth Iechyd Meddwl)**
Datblygwyd y prosiect hwn gan nad oes digon o ddarpariaeth llety ar gyfer y rheiny sydd â niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol, felly mae camu unigolion â'r proffil hwn i lawr yn heriol. Mae'r cyfleuster a ddatblygwyd yn darparu llety cam i lawr gyda chefnogaeth 24 awr i oedolion â salwch meddwl hirdymor a chymhleth sy'n cael trafferth gyda phroblemau cyffredin o fyw a rheoli eu hiechyd yn ogystal â gwella o niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol, sy'n effeithio ar eu cof, rhesymu ac ymddygiad byrbwyll.

**Symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol**
Nod y prosiect yw cynyddu nifer y bobl â diagnosis o anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cael eu cynorthwyo i symud o gartrefi gofal neu gartrefi teuluol i'w llety eu hunain, gyda lefelau priodol o gymorth i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys rheoli eu cyllid eu hunain, dod o hyd i waith ac ehangu eu grwpiau cyfeillgarwch a'u gweithgareddau cymdeithasol, gan gynnwys ymarfer corff.


Datblygwyd y prosiect oherwydd gorddibyniaeth ar leoliadau gofal preswyl a gomisiynwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a galw cynyddol gyda llif cyfyngedig drwy wasanaethau wedi'i nodi. O ganlyniad, daeth yn flaenoriaeth ranbarthol strategol i symud yn eu blaenau'r unigolion hynny nad oes angen y lefel hon o ofal arnynt mwyach i gynyddu'r gyfradd brosesu a gwireddu effeithlonrwydd.

Mae'r capasiti staff ym mhob un o'r tri Awdurdod Lleol a'r tîm iechyd rhanbarthol yn caniatáu cyd-weithio ac adolygiadau cydlynol i sicrhau bod pob parti yn ymwneud â datblygu cynlluniau a'u symud yn eu blaenau. Mae cael adnoddau staff penodol yn golygu bod modd darparu amser a chymorth ychwanegol yn ychwanegol at reoli gofal prif ffrwd a bod mwy o amser ar gael i fynd i'r afael â rhwystrau a sicrhau bod canlyniadau personol unigolion yn ganolog i'r cynllun.

Ers mis Ebrill 2023 mae'r tîm dilyniant iechyd wedi cwblhau 127 o adolygiadau; mae 71 o'r unigolion hyn wedi derbyn cefnogaeth wedi'i thargedu gan y tîm dilyniant ar ffurf rheoli achosion, gan gwblhau asesiadau Therapi Galwedigaethol ac ati. Llwyddodd 35 o unigolion i leihau'r pecyn gofal, mae hyn wedi bod mewn gwahanol ffurfiau e.e. lleihau oriau 1:1 i gamu i lawr o ofal preswyl i fyw â chymorth a chamu i lawr o fyw â chymorth i fod â'u fflat eu hunain. Mae hyn nid yn unig wedi gwella ansawdd byw ond mae hefyd wedi arbed costau i'r GIG ac mae wedi caniatáu i eraill gael mynediad at wasanaethau. Cyfanswm arbedion cost i'r GIG yw £751,802.58 o arbedion blwyddyn lawn.

**Canlyniadau**
- ✓ Gwell canlyniadau adsefydlu ac adfer i unigolion, er mwyn osgoi iddynt gael eu derbyn i wasanaethau acíwt neu eu cynorthwyo i ddychwelyd yn ddiogel ohonynt a chynyddu eu hannibyniaeth.
- ✓ Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol megis gofal cartref
- ✓ Mwy o bobl yn aros gartref yn ddiogel am fwy o amser
- ✓ Llai o dderbyniadau brys ac argyfwng i wasanaethau acíwt
- ✓ Mwy o ddewisiadau a dewisiadau gwell yn lle lleoliadau y tu allan i'r sir, gan gynnwys mynychu coleg arbenigol
- ✓ Mwy o ddewis a chyfranogiad i bobl ag anghenion gofal a chymorth yn y man lle maent yn byw a chyda phwy
- ✓ Adnabod a darparu anghenion gofal lliniarol cysylltiedig yn well lle bo angen.
- ✓ Llai o oriau o ofal di-dâl
- ✓ Mae astudiaethau achos a thystebau a rannwyd gan brosiectau a llais a dewis unigolion yn allweddol wrth gynllunio unrhyw lety


# Gwasanaeth Asesu Dementia a Chof




**Trosolwg:**


Ein gweledigaeth ar gyfer Gorllewin Cymru yw cefnogi pob person sy'n byw gyda dementia. Pwrpas y rhaglen hon yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybr llesiant dementia cyfannol, sy'n rhoi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn y canol, gan ddarparu cymorth i fyw'n dda ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd.


## Faint, pa mor dda a'r gwahaniaeth a wnaed yn 2023-24:






**Buddsoddiad 2023-24**




## Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24

### Nyrsys Admiral

Mae'r gwasanaeth hwn wedi parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar berthynas i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia, gan weithio ar y cyd ar draws llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r prosiectau o fewn y rhaglen hon yn digwydd ar draws ystod eang o wasanaethau a thimau iechyd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Wasanaethau Asesu Cof, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Llesiant Dementia Cymunedol ac Ysbytai, a Swyddogion Cyswllt Perthnasau Ysbytai Acíwt. Mae'n darparu hyfforddiant wedi'i frandio, cymorth busnes cyfyngedig a goruchwyliaeth glinigol barhaus i staff (Gwasanaeth Nyrsio Admiral)

Cafodd y gwasanaeth sgôr uchel ym mhob maes gan ofalwyr di-dâl trwy'r arolwg o brofiad defnyddwyr gwasanaeth, gyda'r canlyniadau'n dangos bod y gwasanaeth Nyrsys Admiral yn perfformio'n dda o ran galluogi gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu clywed ac i gael eu trin yn dosturiol.

Ymhellach, mae Marie Curie yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Nyrsio Admiral, gan ddarparu gwasanaeth gofal diwedd oes i bobl sy'n byw gyda dementia sydd wedi'i gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

### Y Gwasanaeth Llesiant Dementia Cymunedol

Mae'r tîm wedi gweithio gyda chartrefi gofal a gwasanaethau iechyd meddwl a chymunedol, i dreialu dull Gofal mewn Camau o ofalu am ddementia. Mae'r dull hwn yn defnyddio arfer seiliedig ar dystiolaeth sy'n deillio o ymchwil ledled y DU, gan hyrwyddo model gofal a arweinir gan anghenion. Nod y gwaith yw cynorthwyo cartrefi gofal i deimlo'n abl ac yn hyderus wrth ofalu am bobl â dementia ag anghenion sy'n newid, gwella llesiant ac ansawdd bywyd a lleihau derbyniadau i'r ysbyty neu drosglwyddiadau gofal y gellir eu hosgoi.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol a chartrefi gofal yn bartneriaid allweddol ar draws ystod o brosiectau ond yn bennaf y gwasanaeth Cysylltwyr Llesiant Dementia; mae eu gwaith ar ddatblygu'r gweithlu yn digwydd ar draws cartrefi gofal ac mae eu rheolaeth ar lwyth achosion pobl sy'n byw yn y gymuned fel arfer yn cynnwys cydweithio â'r gwasanaethau hyn.

### Ymateb yn gyflym i ofal yn methu

Mae'r cynllun Ymateb yn Gyflym i Ofal yn Methu wedi rhedeg yn llwyddiannus ers sawl blwyddyn. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth i gleifion â dementia lle bu argyfwng yn gysylltiedig â chwalfa gofalwyr. Mae'r cymorth yn amrywio o ddarpariaeth gwelyau i ofal yn eu cartref eu hunain yn dibynnu ar y sefyllfa unigol. Defnyddir y cyllid i alluogi capasiti ychwanegol i'r gwasanaethau presennol a ddarperir.

Mae'r gwasanaeth yn galluogi ymateb dros dro er mwyn caniatáu amser i roi atebion tymor hwy ar waith, gan gydnabod anghenion y person sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'i ofalwr. Drwy gynnig cymorth ar adeg o argyfwng, gellir cynorthwyo pobl i aros gartref a chadw eu hannibyniaeth am fwy o amser. Heb ddarpariaeth ar gyfer cymorth ar adeg argyfwng, byddai llawer o'r bobl hyn yn cael eu derbyn i'r ysbyty heb fod angen hynny a heb fod hynny'n briodol, oherwydd efallai mai'r ysbyty yw'r unig le diogel ar y pwynt hwnnw.

Mae'r prosiect wedi gwella gweithio integredig. Er enghraifft, yng Ngheredigion, lle mae'r ddarpariaeth yn digwydd drwy'r sector annibynnol yn bennaf, mae wedi sefydlu perthnasoedd gwaith cryf rhwng timau bwrdd iechyd perthnasol a chartrefi gofal annibynnol er mwyn darparu'r canlyniadau gorau i bobl sy'n derbyn gofal yn y lleoliadau hynny drwy'r prosiect hwn.

### Gwasanaethau Asesu Cof (MAS)

Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i ddatblygu Gwasanaethau Asesu Cof, er mwyn gwella profiadau pobl yr amheuir bod ganddynt ddementia a'u gofalwyr trwy'r broses o asesu a diagnosio dementia a hwyluso mynediad at gymorth ôl-ddiagnostig. Nod y prosiect hwn yw gwella mynediad amserol i Wasanaethau Asesu Cof er mwyn asesu (o fewn 28 diwrnod), diagnosio (o fewn 12 wythnos), a darparu ymyrraeth seicogymdeithasol ôl-ddiagnostig gymesur.

Mae'r cyllid ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Asesu Cof [£384k] wedi galluogi'r pedwar Gwasanaeth Asesu Cof ledled Gorllewin Cymru i ehangu'r gwasanaethau presennol mewn mannau allweddol o dagfeydd, yn dilyn dadansoddiad darbodus o'r llwybr presennol a safoni prosesau sy'n cefnogi diagnosis o ddementia ar draws y pedwar tîm.

Mae'r data diweddaraf a dderbyniwyd drwy Gwelliant Cymru yn dangos bod Hywel Dda wedi cyflawni cyfradd ddiagnosis o 52.5% ym mis Hydref 2023%. Mae hyn yn unol â'r targed o gynnydd o 3% bob blwyddyn.

Mae'r gwasanaeth wedi lansio holiaduron yr Arolwg Cleifion yn llwyddiannus i gael adborth pellach gan ddefnyddwyr/gofalwyr am y gwasanaeth (PREMS). Yn y cyfnod hwn rhoddodd **100%** o'r

ymatebwyr sgôr o 7 ac uwch ar gyfer eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth, ar raddfa o 1-10, gyda 0 yn Wael Iawn a 10 yn Rhagorol. Roedd **76.09%** o'r ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaeth yn Rhagorol.

Mae'r tîm Gwasanaethau Asesu Cof wedi cwblhau Arolwg o Brofiad Cleifion a lansiwyd ym mis Ebrill 2023. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ddeall profiadau defnyddwyr gwasanaeth yn well ac ymateb i adborth.

**Grwpiau Llywio Dementia**

Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi bod yn gweithio gyda'r grŵp llywio i nodi'r mesurau perthnasol presennol, ar draws yr holl wasanaethau a phartneriaid, sy'n dangos bod y Safonau a'r Strategaeth yn cael eu cyflawni a'u heffaith. Cytunwyd ar fesurau ar gyfer ffrwd waith Datblygu'r Gweithlu Dementia; ac maent ar y gweill ar gyfer y Ffrwd Waith Ymgysylltu â'r Gymuned a Gwasanaethau Asesu Cof/gwasanaethau Pobl a Gofalwr. Mae mesurau ar gyfer ffrwd waith Cysylltydd Llesiant Dementia wedi'u cynnwys yn y fanyleb gwasanaeth a disgwylir i'r canlyniad hwn gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2024.

Mae'r Grŵp Llywio Dementia yn parhau i sicrhau bod lleisiau pobl y mae dementia yn effeithio arnynt yn cael eu clywed a bod y modd y datblygir gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion a phrofiadau bywyd ein cymunedau. O ganlyniad caiff cynrychiolwyr profiad bywyd newydd eu recriwtio i'r Grŵp Llywio Dementia a'r is-grwpiau, yn unol â pholisïau a chynlluniau cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cynrychiolydd gofalwyr eisoes ar y Grŵp Llywio Dementia a'r uchelgais yw recriwtio grŵp ehangach o gynrychiolwyr profiad bywyd, gan gynnwys gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia, o bob rhan o'r rhanbarth, i sicrhau bod ystod eang o leisiau a phrofiadau yn cael eu clywed.

Mae'r Rheolwr Rhaglen Dementia hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia a chydweithwyr eraill ar draws y rhanbarth, i dderbyn adborth o'r gwaith ymgysylltu parhaus ar draws pob lefel gyda phobl â dementia a'u gofalwyr.

**Strategaeth Dementia Ranbarthol Gorllewin Cymru a Strategaeth Gofal Lliniarol a Diwedd Oes (PEOLC)**

Cafodd Strategaeth Dementia Ranbarthol Gorllewin Cymru a'r Strategaeth Gofal Lliniarol a Diwedd Oes eu datblygu ar yr un pryd, ac mae hyn yn amlwg yn eu synergeddau. Mae'r Strategaeth Dementia yn ymrwymo i "wella gofal diwedd oes fel bod pobl sy'n byw gyda dementia yn marw mewn man o'u dewis gydag urddas". Mae'r Strategaeth Gofal Lliniarol a Diwedd Oes yn cydnabod bod dementia yn ddiagnosis lliniarol, ac felly dylai'r llwybr dementia rhanbarthol a llwybrau model gwasanaeth gofal lliniarol a diwedd oes gydgyfarfod.

Mae datblygu Llwybr Llesiant Dementia rhanbarthol cyfannol yn flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth Dementia ranbarthol, a'r Grŵp Llywio Dementia rhanbarthol, ond roedd y grŵp yn cydnabod bwlch yn ein dealltwriaeth o ddementia a gofal diwedd oes yng Ngorllewin Cymru.

**Canlyniadau**

- ✓ Cynyddu mynediad at gydlynu gofal, cymorth i ofalwyr, a chyfleoedd i ddatblygu strategaethau ymdopi
- ✓ Gwella llesiant ac ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr
- ✓ Grymuso pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gael eu clywed a theimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gofal a'u cefnogaeth
- ✓ Lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a throsglwyddiadau gofal
- ✓ Bydd pobl â dementia yn derbyn gofal doeth, gan leihau'r straen a'r trallod sy'n gysylltiedig ag anghenion heb eu diwallu mewn pobl sy'n byw gyda dementia

# Gofalwyr Di-dâl



## Dull


Mae Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif bod tua 38% o ofalwyr yng Nghymru yn 'ofalwyr cudd', nad ydynt efallai'n cydnabod eu hunain fel gofalwyr ac felly efallai eu bod yn colli allan ar gymorth. Dyma bwysigrwydd parhau i wella ein gwaith i hyrwyddo adnabod gofalwyr yn gynnar.

Casglodd y Cyfrifiad yn 2021 wybodaeth am ofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru a nododd y canlynol:

- Roedd 40,535 o bobl yn cydnabod eu hunain fel gofalwyr
- Mae un o bob tri gofalwr o bob oed yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos
- Mae 51% o'r boblogaeth dros 65 oed yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos

## Cyflawni Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru 2020-2025

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru a phartneriaid statudol yn parhau i weithio tuag at gyflawni pedair blaenoriaeth y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol (*ffigur 5*), ac ar yr un pryd maent wedi bod yn paratoi ar gyfer adolygu'r Strategaeth Gofalwyr bresennol, sydd i fod i ddod i ben yn 2025.




*Ffigur 5 Pedwar Maes Blaenoriaeth - Cymorth i Ofalwyr Di-dâl*

Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi bod yn gweithio gyda'r grŵp ar wella eu ffocws strategol, yn benodol trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesur, gan ddiffinio buddion mesuradwy diwygiedig a fydd yn dangos gwell darpariaeth yn erbyn y strategaeth ranbarthol.

Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau presennol yn parhau i fod yn gyson â themâu rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Grŵp Datblygu Gofalwyr yn goruchwylio'r gwaith o weithredu cyllid o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) a dwy ffrwd ariannu arall sydd wedi'u neilltuo i sicrhau bod cymorth uniongyrchol yn cael ei ddarparu i ofalwyr di-dâl.


**Enghreifftiau o brosiectau a gyflwynwyd yn ystod 2023-24**

**Gwasanaeth Rhyddhau Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr**

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau - Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr yn cydweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau o Ysbyty i Ofalwyr. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau, pan fydd gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi mewn ysbyty, bod yna gysylltiad yn ôl i gefnogaeth yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion cyfannol sy'n galluogi'r gofalwr i barhau â'i rôl ofalu ddi-dâl. Mae hyn yn rhan o gontinwwm ehangach o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl ac mae'n chwarae rhan allweddol i gynorthwyo i dderbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau o'r ysbyty yn amserol, drwy gefnogi a chynnwys y gofalwr di-dâl i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu.

Mae Swyddogion Gofalwyr yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd a stondinau gwybodaeth yn y gymuned ac mewn ysbytai cyffredinol. Mae'r rhain wedi bod yn ffordd dda o hyrwyddo'r gwasanaeth a nodi gofalwyr sydd angen cymorth. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, derbyniwyd 268 o atgyfeiriadau newydd a chefnogwyd 363 o ofalwyr gan y Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr.

Mae rhan o'r gwaith o fonitro'r gwasanaeth hwn yn cynnwys adolygu data a gesglir am y canlyniadau a'r effaith ar ofalwyr di-dâl. Yn ystod eu sgwrs 'beth sy'n bwysig i mi' gofynnir i bob gofalwr di-dâl 'sgorio' ei hun yn erbyn sgôr llesiant sy'n cynnwys pedwar maes allweddol. Dangosir isod gipolwg o'r canlyniadau yn seiliedig ar sampl o 35 o ofalwyr di-dâl yn ystod Hydref/Tachwedd a Rhagfyr 2023. Mae hyn yn helpu i ddangos y 'pellter a deithiwyd' o ganlyniad i'r cyngor a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Swyddogion Gofalwyr.




*Ffig.6 Graff yn dangos y gwahaniaeth a wnaed ar ôl derbyn cyngor a chymorth*

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau - Allgymorth Cymunedol i Ofalwyr yn cyfrannu at ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a'r defnydd gwell o adnoddau ariannol a staff drwy gynyddu llif cleifion, lleihau 'blocio gwelyau' a chefnogi gofal yn y gymuned o ganlyniad i fod gofalwyr di-dâl yn gallu cefnogi'r person y maent yn gofalu amdano gartref. Mae darparu gofal yn agos at y cartref yn flaenoriaeth

allweddol i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ac ar adeg o brinder staff gofal cartref i ddarparu gofal â thâl, yn aml gall cynnal gofal yn y gymuned ddibynnu ar barodrwydd a gallu gofalwyr di-dâl.


Mae gofalwyr yn parhau i ddweud eu bod yn falch o gael y gwasanaeth a ddarperir iddynt ac yn ddiolchgar amdano. Mae cael person ymroddedig sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth iddynt yn uniongyrchol fel gofalwr, tra bod y person y maent yn gofalu amdano yn yr ysbyty a phan mae'n dychwelyd adref ar ôl cael ei ryddhau yn hollbwysig i'r gofalwr; mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ac mae'n rhoi mwy o hyder iddynt i barhau i ofalu.

Dywedodd gofalwr: *"Mae'n anodd gwybod beth sydd ar gael a does dim amser gyda ni i chwilio felly mae'r gwasanaeth gan y gweithiwr allgymorth yn amhrisiadwy".*

Dywedodd un arall*: "Mae dilyniant da wedi bod a gwnaeth yr un swyddog gofalwyr barhau i gysylltu â mi sy'n ddefnyddiol iawn, felly does dim rhaid i mi barhau i egluro fy sefyllfa".*

**Buddsoddiad 2023-24**

**£121,001**
Gwariant a gadarnhawyd hyd yma




**AMSER - Arian seibiant byr i ofalwyr**

**Seibiant Gofalwyr**


Mae llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl yn cyfrannu at y Model Gofal ar gyfer Iechyd a Llesiant Emosiynol y cyfeirir ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r prosiect 'Seibiannau Gofalwyr' yn canolbwyntio ar ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer egwyliau a seibiannau byr, a gynhyrchwyd ar y cyd gyda gofalwyr di-dâl ac mae'n symud y tu hwnt i ffurfiau traddodiadol o ofal seibiant. Mae amrywiaeth o gyfleoedd yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn gallu cael seibiannau ystyrlon, sy'n cynnwys mynediad am brisiau gostyngol neu am ddim i wasanaethau a gweithgareddau, yn ogystal â threfniadau pwrpasol sy'n diwallu'r angen, sydd i gyd yn ceisio gwella llesiant y gofalwyr gan eu cynorthwyo i gael bywyd ochr yn ochr â gofalu.

Yn ogystal â'r buddion a welir gan ofalwyr, mae'r prosiect hwn wedi darparu llawer iawn o wybodaeth ynglŷn â beth yw 'seibiant' i wahanol ofalwyr.

## Buddsoddiad 2023-24


£163,084
Gwariant a gadarnhawyd hyd yma




## Y Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr

Fel y nodwyd yn yr adran 'Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol Da', mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn arwain y cynllun rhanbarthol Buddsoddwyr mewn Gofalwyr ar ran Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru ac mae wedi bod yn cydlynu'r ddarpariaeth mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru. Mae'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn gosod y sylfaen ar gyfer gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliadau ysbyty sylfaenol, cymunedol ac acíwt i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr di-dâl.

Mae'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio gan ystod eang o leoliadau sy'n ymestyn y tu hwnt i iechyd, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, timau awdurdodau lleol, Canolfannau Byd Gwaith, gweithleoedd a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn galluogi lleoliadau i symud ymlaen drwy dair lefel o ddyfarniadau; efydd, arian ac aur. Mae'r siart bar yn dangos nifer y dyfarniadau a gyflawnwyd dros gyfnod o bedair blynedd.




*Ffig.6 Graff yn dangos nifer y dyfarniadau a gyhoeddwyd yn ystod 2020-2024*

Nod y cynllun yw cynyddu'r broses o adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar, gan eu hannog i gofrestru fel gofalwyr gyda'u meddygon teulu i hwyluso mynediad at wasanaethau gwybodaeth i ofalwyr a all ddarparu cymorth ychwanegol. Nifer yr atgyfeiriadau o feddygfeydd teulu i'r gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr yn ardal Hywel Dda yn ystod 2023-24 oedd 789, i fyny o 697 y flwyddyn flaenorol.

Mae'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr hefyd yn darparu ystod o hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr ac yn ystod 2023-24, cynhaliwyd 90 sesiwn hyfforddi gyda 1634 yn bresennol ynddynt.

**Gwasanaethau gwybodaeth ac allgymorth i ofalwyr**

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol wedi parhau i weithio ar y cyd â'r trydydd sector i gomisiynu'r gwasanaethau hyn ar gyfer gofalwyr di-dâl. Yn 2023-24, cefnogodd y gwasanaethau hyn 2218 o ofalwyr sy'n oedolion, a 1586 o ofalwyr ifanc ledled y rhanbarth.

**Gwasanaeth cymorth rhyddhau i ofalwyr**

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi gofalwyr di-dâl i bobl sydd yn yr ysbyty, eu cynnwys i raddau mwy yn y broses ryddhau a darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cefnogodd y gwasanaeth 718 o ofalwyr di-dâl, i fyny o 364 y flwyddyn flaenorol. Hefyd cyflwynodd y gwasanaeth 197 o sesiynau hyfforddi i staff wardiau a chynhaliodd 224 o sesiynau galw heibio gyda 1130 o unigolion yn bresennol.

**Gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru**

Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, sy'n gweithio trwy Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, wedi sefydlu gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru (CSWW) sy'n adnodd rhanbarthol a ddatblygwyd fel "siop un stop" i ofalwyr gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chymorth sydd ar gael ledled y rhanbarth. Mae'r ddolen i'r platfform i'w chael yma: Carers Support West Wales | Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru

**Gofalwyr Ifanc**

Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Sir Gaerfyrddin yn enghraifft o brosiect sy'n cefnogi gofalwyr ifanc sydd mewn rôl ofalu sylweddol sy'n effeithio ar eu haddysg, eu bywyd cymdeithasol neu eu hiechyd emosiynol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda gofalwyr ifanc a rhieni i ddatblygu cynlluniau cymorth pwrpasol yn seiliedig ar angen a nodwyd. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cefnogaeth grwpiau cymheiriaid, cyfleoedd cymdeithasol, cymorth penodol 1-1 ac eiriolaeth yn ogystal â darparu cardiau Gofalwyr Ifanc. Ymhellach, lle bo hynny'n briodol, mae rhieni/aelodau eraill o'r teulu yn cael eu cyfeirio at asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Oedolion, y sector Iechyd, sefydliadau'r Trydydd Sector a Thai, i helpu i leddfu'r rôl o ofalu sydd gan ofalwr ifanc.

**Cynorthwyo gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol ac yn hyderus**

Mae llawer o gymunedau mewn ardaloedd gwledig yn wynebu heriau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau ac aros mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae'r Gwasanaeth Bydd Iach (cynnig cwrs yn arbennig ar gyfer gofalwyr di-dâl o'r enw "Cyflwyniad i ofalu amdana i" bellach wedi'i gynnig drwy MS Teams i annog gofalwyr i gymryd rhan pan fyddant yn ei chael hi'n anodd teithio i leoliadau allanol. Yn 2023 darparwyd dau gwrs gyda chyfanswm o 13 o ofalwyr di-dâl yn mynd iddynt. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y cwrs hwn, mae'r Gwasanaeth Bydd Iach yn gweithio gyda Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin i adolygu cynnwys y cwrs ac addasu hyn i'w dreialu yn gynnar yn 2024.

## Manteisio i'r Eithaf ar Incwm

Wrth gydnabod y caledi ariannol sylweddol sy'n wynebu gofalwyr, lansiodd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru y rhaglen Manteisio i'r Eithaf ar Incwm yn 2022/23. Nod y model gwasanaeth hwn yw darparu atebion ymateb brys a gwybodaeth a chyngor ataliol, trwy fodel gwasanaeth cyfannol. Mae'r rhaglen hon yn ategu'r trefniadau lleol presennol, megis budd-daliadau llesiant a gwasanaethau gwybodaeth, i ychwanegu haen arall sydd wedi'i theilwra i ofalwyr, gan sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau arbenigol. Caiff ei ariannu gan y gronfa integreiddio rhanbarthol, gyda chyllid cyfatebol gan y 3 awdurdod lleol.

Mae'r rhaglen hon yn awr yn ei hail flwyddyn ac yn parhau i ddarparu buddion sylweddol i ofalwyr. Ar draws yr holl fentrau yn Sir Gaerfyrddin bu gwelliant o £610,077 mewn iechyd ariannol ar gyfer gofalwyr. Nid yw'r ffigurau cyfatebol yn hysbys ar gyfer Ceredigion neu Sir Benfro ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae hyn yn dangos enillion sylweddol ar fuddsoddiad gan mai cyfanswm buddsoddiad rhanbarthol y Rhaglen ar gyfer 2023-24 oedd £88,000. Bydd angen mesur y gwelliannau tymor hwy yn 2024/25, er mwyn penderfynu a yw'r gofalwr wedi cynnal ei iechyd ariannol ac wedi cymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn annibynnol.

# Anableddau Dysgu a Chyflyrau Niwroddatblygiadol



**Partneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol (RILP)**
Mae'r bartneriaeth hon yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o fentrau a phrosiectau sy'n cefnogi nodau ein Cynllun Ardal a'r rheiny a nodir yn y siarter arloesol sef Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru. Datblygwyd y Siarter hon gan y 'Dream Team', sef grŵp o bobl ag anableddau dysgu o bob rhan o Orllewin Cymru. Ei nod yw rhoi mwy o amlygrwydd i faterion sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu, hyrwyddo eu hawliau, gwella eu mynediad at wasanaethau, cyfleusterau busnes a hamdden a grymuso pobl i gyd-gynhyrchu atebion yn y dyfodol.

Mae'r prosiectau yn cynnwys:

- Cyfleoedd dydd arloesol a thrawsnewidiol
- Llwybrau at gyflogaeth
- Cyfeillion ymarfer
- Cymorth ymddygiad cadarnhaol
- Symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol

**Awtistiaeth**
Mae Grŵp Strategol Rhanbarthol ar gyfer Awtistiaeth wedi parhau yn ystod 2023-24 gyda phwrpas cyffredinol y grŵp fel a ganlyn:

- Gwella canlyniadau i bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- Sicrhau bod pobl awtistig yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso, datblygu a darparu gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru
- Sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006 a'r Côd Ymarfer ar gyfer Darparu Gwasanaethau Awtistiaeth (2021)

**Bwrdd Gwella Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru (WWNDIB)**
Yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, mae nodau ac amcanion y Grŵp Strategol Rhanbarthol ar gyfer Awtistiaeth wedi'u hintegreiddio ac fel y cyfryw, mae'r grŵp hwn wedi'i ddisodli gan Fwrdd

Gwella Gwasanaeethau Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru (WWNDIB). Mae'r enw newydd hwn yn adlewyrchu cwmpas ehangach y cyfrifoldebau a ffynonellau cyllid amrywiol y grŵp.

Mae gwaith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i ddod ag uwch gynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r trydydd sector at ei gilydd i wella, integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion niwroamrywiol a'u teuluoedd yng Ngorllewin Cymru. Ar ôl gwneud y gwaith sylfaen ar sefydlu hyn, bydd cyfarfodydd WWNIB yn dechrau yn ystod 2024-25 ac yn disodli'r Grŵp Strategol Rhanbarthol ar gyfer Awtistiaeth.

# Cynllunio a Chomisiynu Integredig



## Rhaglen Gomisiynu

Canolbwyntiodd gwaith y Grŵp Rhaglen Gomisiynu yn 2023-24 ar gyflawni rhaglen o flaenoriaethau strategol, gan gynnwys ymateb i argymhellion Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Gwnaeth gwaith ar bedair blaenoriaeth yn ystod 2023-24:

1. Cynnal arfarniad opsiynau i asesu a gwneud argymhellion ar greu a gwella gallu comisiynu strategol rhanbarthol
2. Sefydlu rhaglen gomisiynu arbenigol ranbarthol ar gyfer plant i ddiwallu anghenion iechyd a gofal plant a phobl ifanc
3. Sefydlu rhaglen gomisiynu arbenigol ranbarthol ar gyfer oedolion o oedran gwaith i sicrhau darpariaeth leol (gan ganolbwyntio ar drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion)
4. Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer darparu cartrefi gofal nyrsio sector cyhoeddus yn y rhanbarth

## Strategaeth Eiriolaeth

Paratowyd Strategaeth Eiriolaeth 2023-27 yn dilyn cyfnod o ymgynghori a chafodd ei chymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2023. Cafodd hyn ei lansio'n ffurfiol yn 2024 ac roedd amrywiaeth o sefydliadau yn bresennol.




Roedd y lansiad hefyd yn gyfle i wrando a chasglu barn pobl eraill ynghylch sut y gellir cryfhau a chyflawni blaenoriaethau'r strategaeth mewn ffordd gydgynhyrchiol. Gellir dod o hyd i ddolen i'r strategaeth ynghyd â fersiwn hawdd ei deall yma:

Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk)
Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) (Fersiwn hawdd ei ddarllen)

# Rhaglen Gyfalaf Gorllewin Cymru

## Cynlluniau Buddsoddi



### Rhaglen Strategaeth a Chyflenwi Cyfalaf 10 Mlynedd

Mae'r Bwrdd (Rhaglen) Cyfalaf Strategol Rhanbarthol wedi ysgogi datblygiad y Strategaeth Gyfalaf Strategol trwy gyfres o weithdai ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan arwain at gyhoeddi'r Strategaeth ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau, adroddiadau a data allweddol, gan gynnwys yr Asesiad Poblogaeth, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth, adroddiadau Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai ar lety i bobl hŷn a'r rheiny ag anghenion ychwanegol. Mae dolen i'r strategaeth i'w chael yma:
Strategaeth Gyfalaf – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (wwrpb.org.uk)
Strategaeth Gyfalaf Fersiwn Hawdd ei Ddarllen – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk)

Mae Rheolwr Rhaglen (PMO) newydd,a gynhelir gan dîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru,wedi'i sefydlu i arwain y rhaglen gyflawni, sydd wedi gwneud cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaed gwelliannau sylweddol i ddatblygu'r biblinell o brosiectau seiliedig ar lety a gefnogir gan y Gronfa Tai â Gofal. Mae ffurfio'r rhaglen ranbarthol wedi dylanwadu ar yr angen i uno cynlluniau comisiynu ag atebion llety ym mhob un o'r ardaloedd lleol. Yn hyn o beth ceir ffocws ar adolygu pecynnau gofal presennol i gamu i lawr o leoliadau mwy traddodiadol i drefniadau byw â chymorth.

Mae'r prosiectau sy'n seiliedig ar lety wedi ymdrin â chynlluniau byw â chymorth yn bennaf ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, lle ceir angen sylweddol heb ei ddiwallu fel y nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion o Boblogaeth. Yn ogystal â chynlluniau byw â chymorth, mae'r rhaglen hefyd wedi arwain at ddatblygu nifer o gynlluniau ar gyfer plant a phobl ifanc, i gefnogi'r agenda dileu. Mae'r Rheolwr Rhaglen hefyd wedi rheoli sawl agwedd ar yr "hwb" rhanbarthol yn Hafan y Gors fel prosiect allweddol i gefnogi'r agenda "llety mwy diogel". Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi'r trydydd sector gyda phrosiect preswyl i blant a ddatblygwyd gan Action for Children, a chais Cwmni Budd Cymunedol (Cymdeithas Budd Cymunedol Clynfyw) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau parhad tenantiaethau byw â chymorth ar fferm ofal yng Ngogledd Sir Benfro.

Mae'r gwariant cyffredinol o dan y Gronfa Tai â Gofal wedi gwella'n sylweddol gyda Gorllewin Cymru yn hawlio £4,275,000 ar draws 12 prosiect yn ystod 2023/2024. Mae'r taflwybr ar gyfer dwy flynedd nesaf y Gronfa Tai â Gofal yn cynyddu ymhellach, gydag amcangyfrif cyfredol o wariant o £11,002,340 yn 2024/2025.

Ar lefel rhaglen, mae cynnydd hefyd wedi'i wneud wrth bennu agweddau ar y Model Gofal sy'n seiliedig ar lety. Caiff hyn ei arwain gan y Rheolwr Rhaglen fel rhan o'r dull o ddatblygu "glasbrintiau" ar gyfer cynlluniau cyfalaf sy'n elwa o'r Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso Gofal (IRCF)

Elfen graidd arall o'r Strategaeth Gyfalaf yw cefnogi'r datblygiadau polisi a strategol o amgylch creu Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â lle y gellir dod â gofal preswyl yn ôl i berchnogaeth y sector cyhoeddus. Mae llawer o'r gwaith hwn yn digwydd yng nghyd-destun y Strategaeth Gyfalaf sy'n rhan o gynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i weithredu Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach. Mae rhan ohono'n manylu ar rôl buddsoddiad cyfalaf fel rhan o'u model cymunedol yn y dyfodol.

Mae sawl menter wedi llwyddo i dderbyn cyllid yr IRCF gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygiad Cei'r De (canolfan gofal cymdeithasol, iechyd a llesiant cymunedol) ym Mhenfro a phrosiect Hwb Caerfyrddin (hen adeilad Debenhams) fel canolfan arloesol ar gyfer iechyd, llesiant a dysgu. Bydd hyn yn creu cyfle newydd i gydleoli ac integreiddio ystod o wasanaethau i gefnogi gofal iechyd ataliol ac i gysylltu'r rhain yn greadigol â gweithgareddau dysgu, cymunedol a hamdden. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd wedi rhoi cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cam nesaf y broses achos busnes ar gyfer prosiect Canolfan Iechyd a Llesiant Abergwaun.

Rhoddwyd pwyslais ar brosiectau a ariennir drwy Refeniw IRCF sy'n cefnogi'r gronfa gyfalaf i ddatblygu achosion busnes, astudiaethau dichonoldeb, ariannu'r gwaith o reoli prosiectau a hyfforddiant arbenigol. Bydd llawer o'r prosiectau hyn yn cefnogi datblygiadau cyfalaf yn y dyfodol yn y cynllun deng mlynedd. Disgwylir i doriad o 50% gael ei wneud i'r gronfa hon yn ystod 2024/2025 gydag ansicrwydd pellach wrth symud i mewn i 2025/2026.

Un o'r gofynion penodol ar gyfer yr IRCF yw datblygu cynllun deng mlynedd ar gyfer yr holl ofynion seilwaith sy'n gysylltiedig â'n Strategaeth Ranbarthol. Datblygwyd hyn yn ystod 2023/2024, gyda chyfanswm cais am gyllid o £660m dros ddeng mlynedd. Yn amlwg, nid yw hyn yn fforddiadwy. Mae'r IRCF felly wedi gosod cyfrifoldeb ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu proses flaenoriaethu ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2024/2025.

Agwedd bwysig ar y rhaglen fu datblygu "glasbrint" ar gyfer datblygiadau hybiau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hwn yn ddull rhanbarthol o ddiffinio model gofal yn effeithiol sy'n gysylltiedig â datblygu hybiau integredig. Mae nifer fawr o randdeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y gwaith hwn a fydd yn datblygu ymhellach y dull thematig o ehangu ar y weledigaeth a'r egwyddorion allweddol fel y'u disgrifir yn y Strategaeth Ranbarthol.

# Arloesi, Technoleg a Datrysiadau Digidol



**Trosolwg**

Mae Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gorllewin Cymru (WWRIC) yn cysylltu â diwydiant, y byd academaidd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y trydydd sector, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac asiantaethau cenedlaethol gyda'r nod o gydlynu a hwyluso arloesedd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Gorllewin Cymru. Ymhlith y sefydliadau y cydweithir yn rheolaidd â hwy y mae:

- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Comisiwn Bevan
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Canolfan Ragoriaeth SBRI
- MediWales
- Cydweithrediaeth GIG Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC)
- Prifysgol Abertawe
- Academïau Dysgu Dwys Cymru
- Technoleg Iechyd Cymru
- Iechyd Gwledig a Gofal Cymru
- Cymunedau Ymarfer Llywodraeth Cymru

Cydnabyddir bod meysydd gwaith ar y cyd sydd â'r potensial i elwa o 'gymorth arloesi' yn aml yn gofyn am ymchwil, arddangosiadau a threialu cychwynnol. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel elfennau hanfodol i helpu i lywio penderfyniadau a phenderfynu a oes gwerth mewn mynd ar drywydd datblygiad pellach. Cydnabyddir hefyd na fydd pawb yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn dilyn y camau cychwynnol hyn, ond mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu gwneud i sefydlu'r costau a'r buddion cyn buddsoddi mwy o amser ac adnoddau.

**Enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn ystod 2023-24**

**Gofal yn Nes at y Cartref – Atebion Arloesol**

Mae'r Hwb RIC wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Sir Benfro i nodi atebion arloesol a all eu cynorthwyo i ddatblygu'r Rhaglen Ysbyty yn y Cartref. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd Hwb Ffrydio corfforol yn Ysbyty Llwynhelyg i gefnogi'r gwaith o fonitro Staciau Ambiwlans WAST. Mae hyn

wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion sydd angen gwasanaethau WAST a hefyd leihau nifer y derbyniadau damweiniau ac achosion brys. Mae'r Hwb RIC hefyd wedi bod yn cefnogi'r gwaith o sefydlu'r Gymuned Ymarfer ac adeiladu cysylltiadau ag asiantaethau a all gyfrannu at brosiect Cymuned Ymarfer Sir Benfro (gan gynnwys Comisiwn Bevan, yr Hwb Gwyddorau Bywyd, Adran Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Prifysgol Birmingham).

**Y Fforwm Arloesi Rhanbarthol (fforwm adran 16)**
Sefydlwyd hwn yn 2023 ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o adnabod modelau gofal trawsnewidiol ar draws y trydydd sector a hefyd i gefnogi'r agenda ail-gydbwyso. Cytunwyd ar raglen waith ac mae'n canolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth: Comisiynu a datblygu mentrau cymdeithasol yn arloesol.

**Cyfathrebu**
Adolygwyd Cynllun Cyfathrebu Hwb RIC yn ystod y flwyddyn gyda sianeli cyfathrebu ychwanegol wedi'u nodi i hyrwyddo arloesedd ar draws y rhanbarth.

**Cronfa ddata**
Mae cronfa ddata o holl atebion y diwydiant sy'n cael eu cyflwyno i WWRIC wedi'i datblygu at ddefnydd lleol a chyfeirir ati at gefnogi unrhyw ymholiadau arloesi a dderbynnir o bob rhan o'r rhanbarth.

**Trawsnewid Digidol**
Y Bwrdd Trawsnewid Digidol. Mae gweithdy digidol yn cael ei drefnu i ailfywiogi'r darn hwn o waith.

**Tai ar gyfer Iechyd**
Grŵp Economi Sylfaenol De-orllewin Cymru sy'n dod â chydweithwyr tai ac iechyd ynghyd i nodi cyfleoedd cydweithio yn y maes hwn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio ar yr agenda Tai ac Iechyd ac mae gweithdy wedi'i drefnu yn gynnar yn 2024/25. Bydd hyn yn dod â chydweithwyr sy'n gweithio yn yr arena Tai ac Iechyd ynghyd, i nodi'r heriau sy'n cael eu hwynebu ac i lunio rhestr o flaenoriaethau i weithio drwyddi yn seiliedig ar ganlyniad y sesiwn.

**Mapio ar gyfer prosiectau arloesi**
Nododd yr ymarfer mapio dros 200 o brosiectau sy'n mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth. Cafodd y rhain eu categoreiddio o dan y canlynol:

- Modelau Gofal sy'n benodol i'w Cyllid Cronfa Integreiddio Rhanbarthol
- Gofal Sylfaenol
- Gofal heb ei drefnu
- Gofal wedi'i drefnu
- Iechyd Meddwl a Dysgu
- Gwasanaethau Cymunedol
- Gwasanaethau Canser
- Gwasanaethau Menywod a Phlant
- Iechyd y Cyhoedd
- Cartref Gofal
- Damweiniau ac Achosion Brys
- Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach
- Therapi a Gwyddor Iechyd
- Cynaliadwyedd
- Datblygu Trefniadaeth

### Enghreifftiau Bevan

Cynhaliwyd digwyddiad Carfan 7 Rhaglen Enghreifftiol Bevan yn ystod 2022/23 ac mae'r digwyddiad i hyrwyddo prosiectau Carfan 8 wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2024.

### Gweithio gyda phrifysgolion a hybiau RIC eraill

Mae Canolfan WWRIC yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Hybiau RIC Powys a Gogledd Cymru. Mae'r Ganolfan wedi datblygu perthynas waith gyda Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Sheffield a Birmingham trwy'r Rhaglen IMPACT. Yn ogystal, mae'r Hwb RIC wedi ymweld â labordy cartref clyfar Prifysgol Aberystwyth y mae'n ei hyrwyddo ar draws y rhanbarth. Mae nifer o sectorau wedi mynegi diddordeb mewn cydweithio â'r brifysgol ac mae'r Hwb RIC wedi bod yn hwyluso trafodaethau. Trwy ei berthynas â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae'r Hwb wedi bod yn hwyluso trafodaethau rhwng cydweithwyr ym maes Iechyd y Cyhoedd a'r Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol i nodi'r ffyrdd gorau o ddatblygu cysyniad o gasglu samplau o gewynnau. Mae'r Hwb yn cyfarfod yn rheolaidd gydag Iechyd a Gofal Gwledig Cymru ac mae'n parhau i weithio ar y cysyniad o ddatblygu Ysbyty Rhithwir i gefnogi'r rheiny sy'n byw mewn rhannau gwledig o'r rhanbarth. Cynrychiolwyd yr Hwb yng Nghynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru a gynhaliwyd ar faes y Sioe Frenhinol yn ystod y flwyddyn.

# Datblygu ac Integreiddio'r Gweithlu



**Dull**

Ers penodi rheolwr y Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol ym mis Medi, mae Bwrdd Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol (sy'n cyfarfod bob deufis) wedi gosod tair ffrwd waith i gefnogi materion gweithlu ar draws y rhanbarth fel a ganlyn:

1) Addysg a datblygiad
2) Arweinyddiaeth a rheoli talent
3) Gwybodaeth am Ddata'r Gweithlu

**Y Rhaglen Gofalwn**

Nod hyn yw codi proffil gyrfaoedd yn y sector gofal ac mae'n cefnogi'r genhedlaeth nesaf o'n gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant, gan dynnu sylw at lwybrau i ofal, llwybrau a chyfleoedd, gan sicrhau bod digon o bobl â'r gwerthoedd, y rhinweddau a'r sgiliau cywir yn y gweithlu gofal i ddiwallu anghenion y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Trwy'r gwaith hwn, mae myfyrwyr yn fwy gwybodus am y llwybrau i ofal, llwybrau gyrfa, swyddi gwag presennol a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt megis prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau. Gwell ymwybyddiaeth o'r farchnad lafur gyda golwg ar Ofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Chwarae a gwell dealltwriaeth o fyd gwaith. Bydd ganddynt well dealltwriaeth o'r sector, y swyddi sydd ar gael a'r rhinweddau, y gwerthoedd a'r cymwysterau sydd eu hangen i weithio ym maes gofal.

Trwy drafodaethau gyda staff addysgu mewn ysgolion a cholegau ynghyd ag Ymgynghorwyr Busnes Addysg Gyrfa Cymru, caiff myfyrwyr eu haddysgu am y gwahanol opsiynau gyrfaol, rolau swyddi a llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector trwy sesiynau pwrpasol wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein a rhyngweithiol, sgyrsiau a gweithdai i weddu i anghenion myfyrwyr a chefnogi eu hastudiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.  Mae hyn yn cynnwys cwrs Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol am ddim dros 2 ddiwrnod sy'n cael ei redeg gan dîm hyfforddi Gofalwn Cymru.  Mae'n rhaglen benodol ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 12 a 13 a myfyrwyr mewn colegau Addysg Bellach sy'n astudio iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymhellach, mae Llysgenhadon a hyrwyddwyr Gofalwn sy'n gweithio mewn amrywiaeth o swyddi gofal gwahanol yn y sector Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Chwarae hefyd yn gallu rhoi cipolwg go iawn ar eu gwaith trwy sgyrsiau a thrafodaethau anffurfiol. Mae hyn yn cyfoethogi cwricwlwm yr ysgol a phrofiad dysgwyr o fyd gwaith ac yn darparu straeon go iawn gan bobl go iawn sy'n gweithio yn y sector i ysbrydoli a rhannu eu brwdfrydedd am ofalu.

Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol yn cael ei drosglwyddo i fyfyrwyr a rhieni drwy fod yn bresennol a chael cefnogaeth mewn digwyddiadau gyrfaol megis gwyliau, carwselau, ffeiriau swyddi, nosweithiau rhieni a ffug gyfweliadau ac ati.

**Yr Hyn a Gyflawnwyd**

Mae Rhaglen Gofalwn Cymru wedi cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn i barhau i hyrwyddo gofal cymdeithasol, gofal plant, blynyddoedd cynnar a llwybrau gyrfa chwarae:

- Cefnogwyd 18 o ysgolion uwchradd a 2 goleg
- Cyflwynwyd 56 o sesiynau
- Cefnogwyd (tua) 5,500 o fyfyrwyr
- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Gofalwn Cymru.
- Cyflwyno'r Prosiect Gofal Plant
- Cyflwyno'r rhaglen Llysgennad Gofalwn
- Gweithgor Gofalwn Gorllewin Cymru – i yrru cydweithio ac ymateb i flaenoriaethau.

**Canlyniadau**

- ✓ Darparu elfen ranbarthol yr ymgyrch denu a recriwtio mewn modd gwell a rhoi gwell cefnogaeth i ddarparwyr gofal wrth helpu gyda heriau recriwtio a chadw staff
- ✓ Gwell ymgysylltu ag ysgolion a staff addysgu
- ✓ Cysylltiad cryfach ag ysgolion, colegau a gwasanaethau cyflogaeth
- ✓ Mae gan fyfyrwyr a cheiswyr gwaith well dealltwriaeth o'r sector gofal, y cyfleoedd sydd ar gael a gwell dealltwriaeth o lwybrau gyrfaol, cymwysterau, dilyniant ac opsiynau hyfforddi
- ✓ Mwy o swyddi gofal cymdeithasol, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn cael eu hysbysebu ar y Porth Swyddi Gofalwn, gan gynnwys swyddi uwch
- ✓ Mae gan wasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi recriwtio gronfa o adnoddau/offer lleol sy'n bwerus ac yn effeithiol gan arwain at fwy o ddiddordeb yn y sector

# RHAN 3: DOGFENNAU CYFEIRIO A DOLENNI

| | |
|---|---|
| Gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Gorllewin Cymru – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (wwrpb.org.uk) |
| Agendâu - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | https://wwrpb.org.uk/cy/wwrpb-agendas/ |
| Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023-2028 | Cynllun Ardal – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) |
| Cynhadledd a Gwobrau | https://wwrpb.org.uk/cy/cynhadledd-a-gwobrau-bprhgc-2024-cym/ |
| 'Rhaglen Lywodraethu 2021-2026' Llywodraeth Cymru | Rhaglen lywodraethu: diweddariad [HTML] \| LLYW.CYMRU |
| Fframwaith Nyth / Nest | Fframwaith NEST (iechyd meddwl a lles) \| LLYW.CYMRU |
| Dim Drws Anghywir | Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant - Children's Commissioner for Wales (complantcymru.org.uk) |
| Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru | Carers Support West Wales \| Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru |
| Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru | Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) |
| Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru (fersiwn hawdd ei ddarllen) | Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) |
| Strategaeth Gyfalaf | Strategaeth Gyfalaf – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (wwrpb.org.uk) |
| Strategaeth Gyfalaf (fersiwn hawdd ei ddarllen) | Strategaeth Gyfalaf Fersiwn Hawdd ei Ddarllen – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) |
| Strategaeth Dementia Gorllewin Cymru | Strategaeth Dementia – West Wales Regional Partnership Board (wwrpb.org.uk) |

# Atodiad 1

### Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Ebrill 2024)

| Enw | Sefydliad | |
|---|---|---|
| **Hazel Lloyd Lubran (Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | Prif Swyddog |
| **Michael Gray** | Cyngor Sir Penfro | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **Estelle Hitchon** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, |
| **Y Cynghorydd Tessa Hodgson** | Cyngor Sir Penfro | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol |
| **Audrey Somerton Edwards** | Cyngor Sir Ceredigion | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal |
| **Ardiana Gjini** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |
| **Gwag** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Aelod Annibynnol – Llywodraeth Leol |
| **Hilary Jones** | Cymdeithas Tai Bro Myrddin | Prif Weithredwr |
| **Jake Morgan** | Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyfarwyddwr Cymunedau |
| **Jonathan Morgan** | Cyngor Sir Caerfyrddin | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel |
| **Gareth Morgans** | Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyfarwyddwr Addysg a Phlant |
| **Jill Paterson** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor |
| **Malcolm Perret** | Fforwm Gofal Cymru | Is-gadeirydd |
| **Donna Pritchard** | Cyngor Sir Ceredigion | Dirprwy-gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal |
| **Cathryn Thomas** | Gofal Cymdeithasol Cymru | Cyfarwyddwr Cynorthwyol |
| **Gaynor Toft** | Cyngor Sir Penfro | Prif Swyddog Tai |
| **Y Cynghorydd Jane Tremlett** | Cyngor Sir Caerfyrddin | Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd |
| **Y Cynghorydd Alun Williams** | Cyngor Sir Ceredigion | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion |
| **James Tyler** | | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth |
| **Alan Thomas** | | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth |
| **Gwag** | < Sefydliad > | Cynrychiolydd gofalwyr |
| | | |



**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ewch i wefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn**

[Gorllewin Cymru – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (wwrpb.org.uk/cy/)](https://wwrpb.org.uk/cy/)

**Anfonwch e-bost atom ar wwrpb@sirgar.gov.uk**